Adeilad Newydd y Cynulliad

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 4, 5, 6, 7 a 8 yn enw William Graham, gwelliant 2 yn enw Michael German a gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies.

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol, ymhellach at ei benderfyniad ar 21 Mehefin 2000, yn penderfynu:

ceisio tendrau cystadleuol i gwblhau adeilad y Cynulliad, wedi ei seilio ar y dyluniad a baratowyd gan Bartneriaeth Richard Rogers, ac un ai ei brydlesu i'r Cynulliad neu ei werthu am un swm y cytunwyd arno; a gohirio gwaith ar yr adeilad nes i'r fath dendr gael ei dderbyn. (NNDM773)

Gresynaf fod yn rhaid imi ddweud wrth y Cynulliad heddiw na fydd modd codi adeilad newydd y Cynulliad o fewn y gyllideb adeiladu a gymeradwywyd sef £13.8 miliwn ac, felly, o fewn cyfanswm y gyllideb arfaethedig sef £26.6 miliwn, er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan Bartneriaeth Richard Rogers o'r blaen a chanfyddiadau adolygiad Turner a Townsend o'r amcangyfrifon yn y gwanwyn a'r haf diwethaf. Pan roddais adroddiad ar y datblygiadau i'r Cynulliad ym mis Ionawr, nodais fod rhai pwysau o ran costau yn dod i'r golwg, er gwaethaf y ffaith i'r prosiect barhau i fod o fewn ei gyllideb, ac y byddai angen defnyddio rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn. Yng ngoleuni hynny, nodais fy mwriad i gomisiynu adolygiad trylwyr o'r costau.

Yr oedd yr adolygiad yn cynnwys syrfewyr meintiau annibynnol, allanol y Cynulliad, sef Grwp Symmonds, Partneriaeth Richard Rogers a'i syrfewyr, Hanscomb, y contractwr rheoli, Skanska a'n syrfëwr meintiau mewnol. Bu'r adolygiad yn hirfaith ac yn drwyadl iawn. Amlygodd achosion o danamcangyfrif sylweddol yn y cynllun cost a baratowyd gan Bartneriaeth Richard Rogers. Y prif gasgliad oedd rhagweld cost adeiladu alldro o £24 miliwn, gyda risg sylweddol o gostau pellach. Golygai hynny y gallai cost alldro y prosiect fod yn uwch na £40 miliwn. Pan ddaeth yn amlwg, yn ystod yr adolygiad, bod y costau'n uwch nag a ragwelwyd, ar anogaeth fy swyddogion, ymgymerodd Partneriaeth Richard Rogers ag ymarfer lleihau costau. Yn sgîl hynny bu newidiadau i'r cynllun a arweiniodd at rai arbedion, ond nid y fath arbedion a fyddai'n sicrhau bod y cynllun o fewn y gyllideb eto. Mae'r ffigurau a gyflwynir heddiw yn adlewyrchu'r newidiadau hynny i'r cynllun. Bydd y Cynulliad am nodi eu bod yn cynnwys lleihad yng nghwmpas yr adeilad, nad yw wedi cyfaddawdu'r cynllun sylfaenol, ei olwg na'r cyfleusterau a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd.

Mae'n amlwg na ellid bod wedi adeiladu'r cynllun y gofynnwyd inni ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Tachwedd o fewn yr amcangyfrifon a roddwyd inni ar y pryd o bell ffordd. Mae'r broses amcangyfrifo yn fater i ymgynghorydd cost y cynllun ac yn rhan o gomisiwn tîm cynllunio Partneriaeth Richard Rogers. Yr wyf yn ffyddiog na allai grwp llywio polisi'r weinyddiaeth na thîm prosiect y Cynulliad fod wedi gwneud rhagor i ragweld a rheoli costau. Fel cydnabyddiaeth o'm dymuniad datganedig i reoli costau'n

dynn, cafodd y Cynulliad, drwy gydol y broses, wybodaeth ar gostau gan ein syrfewyr meintiau annibynnol, a benodwyd ym mis Ionawr 2001.

Mae cynnydd mor fawr mewn costau yn ei gwneud yn ofynnol inni holi a yw'n briodol bwrw ymlaen â'r cynllun ai peidio, ac, os yw'n briodol, a ddylid parhau â'r dull caffael presennol a'r tîm pensaernïol presennol. Mae'r grwp llywio polisi a minnau o'r farn o hyd bod angen siambr newydd ar y Cynulliad ac y dylid ei chodi ar y safle bresennol ac yn unol â chynllun Partneriaeth Richard Rogers. Dyna oedd penderfyniad y Cynulliad ym mis Mehefin 2000, ac mae'n bosibl codi adeilad yn unol â dymuniadau'r Cynulliad o hyd. Yn anffodus, yr ydym hefyd wedi dod i'r casgliad na allwn fod yn hyderus y gellid codi'r adeilad am bris y byddai'r Cynulliad yn ei ystyried yn weddol agos at ei ddisgwyliadau o dan y trefniadau presennol.

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod llythyr a gefais gan yr Arglwydd Rogers bellach yn gyhoeddus. Mae hynny'n anffodus, gan na fyddwn fel arfer am wneud sylwadau ar ohebiaeth rhwng y Cynulliad ac un o'i gontractwyr. Fodd bynnag, gan ei fod yn eiddo cyhoeddus bellach ac yn codi materion difrifol, teimlaf fod yn rhaid imi wneud sylwadau arno. Yr wyf yn fodlon bod yr Arglwydd Rogers a'i dîm wedi cael pob cyfle i gyflwyno'r cynllun cost ac i roi eu barn ar y sefyllfa bresennol imi yn bersonol, fel yr unigolyn sydd yn gwneud penderfyniadau ar fuddsoddi, ac i'r grwp llywio polisi. Yr wyf hefyd yn fodlon nad newidiadau neu welliannau y cleient sydd yn gyfrifol am y cynnydd mewn costau a nodwyd o ganlyniad i'r adolygiad o gostau. Amcangyfrifwn, hyd yn oed ar ôl rhoi'r wedd fwyaf hael ar gostau, mai dim ond £1.2 miliwn o'r cynnydd, fel cyfanswm, y gellir ei briodoli i'r cleient.

Yn olaf, nid oes unrhyw amheuaeth gennyf, ar sail y cyngor proffesiynol annibynnol allanol a roddodd Grwp Symmonds yn ystod yr adolygiad o gostau, mai'r tanamcangyfrifon a geir yng nghynllun cost gwreiddiol Partneriaeth Richard Rogers ynglyn â chwmpas, cynnwys a gwaith sydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn costau.

Fel y clywsoch, dywedodd Partneriaeth Richard Rogers fod fy nghynrychiolwyr—a deallaf mai fy swyddogion a'u hymgynghorwyr proffesiynol a olyga—wedi ceisio celu costau. Mae'r swyddogion wedi rhoi gwybodaeth lawn imi ynglyn â'r costau drwy gydol y prosiect. Ni chafodd y grwp llywio polisi na minnau ychwaith ein camarwain ar unrhyw adeg ac yr wyf yn gwbl hyderus am y cyngor a gefais. Gofynnwyd i'r Arglwydd Rogers brofi'r datganiad hwnnw, ond ni allai roi unrhyw dystiolaeth. Nid yw'r trafodaethau gyda'r Arglwydd Rogers wedi helpu inni ddod i gytundeb barn ynglyn â'r rheswm dros y cynnydd mewn costau nac i'm darbwyllo y byddwn yn gallu cydweithio i godi'r adeilad o fewn y gyllideb y cytunwyd arni.

Mae cyd-Aelodau o'r grwp llywio polisi yn cyd-fynd â hynny a buom yn unfrydol y dylem derfynu cyflogaeth Partneriaeth Richard Rogers. Daw i ben heddiw. Nid effeithir ar benderfyniad y Cynulliad y dylid adeiladu Siambr yn unol â chynllun RRP. Mae'r grwp llywio polisi o'r farn o hyd bod angen dadleudy, y dylai fod ar y safle bresennol ac y dylid parhau â chynllun RRP nes iddo gael ei gwblhau. Mae hawl gan y Cynulliad i ddefnyddio dogfennau'r cynllun er mwyn cwblhau'r gwaith o godi'r adeilad.

Mae'r cynnig ger eich bron yn fodd inni gyflawni hynny. Yr ydym o'r farn y bydd y Cynulliad yn gallu cyflawni ei ddymuniad drwy fynd i'r farchnad a cheisio gwasanaethau datblygwr i gwblhau'r cynllun a chodi'r adeilad. Bydd yn gallu gwneud hynny mewn ffordd a fydd yn arwain at leihau costau, mwy o sicrwydd o ran costau cyn i'r contract gael ei lofnodi a throsglwyddo'r risg o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat.

Yn y bôn, y camau a argymhellwn yw bwrw ymlaen â chynllun RRP mewn modd sydd yn lleihau costau i'r eithaf a rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl inni o ran costau. Credaf mai'r ffordd orau o gyflawni hynny fydd penodi datblygwr i gwblhau'r cynllun a chodi'r adeilad, naill ai am gyfandaliad y cytunwyd arno neu ar sail cytundeb prydles. Golygai hynny ohirio'r gwaith sydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y safle a dilyn rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau datblygwr newydd a fydd yn bwrw ymlaen â'r cynllun. Bydd hyn wrth reswm yn achosi oedi o safbwynt y rhaglen bresennol ac mae'n amlwg na chaiff yr adeilad ei gwblhau cyn yr etholiad nesaf. Mae'n bwysig nodi bod y cynnig ond yn ymrwymo'r Cynulliad i fynd i'r farchnad i ganfod beth fydd dilyn opsiwn y datblygwr yn ei gostio. Ni wneir penderfyniadau terfynol pa un a yw'r opsiynau ar gyfer datblygwyr yn rhoi gwerth am arian ac a ddylem fwrw ymlaen â'r cynllun ai peidio tan hynny.

Wrth gymeradwyo'r cynnig i'r Cynulliad, pwysleisiaf fy mod yn edifarhau'n fawr iawn nad oedd modd parhau â'r cynllun fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar y Cynulliad i ymddwyn yn broffesiynol ac yn gyfrifol, i fod yn wyliadwrus ar ran pobl Cymru ac i wneud popeth o fewn ei allu i leihau costau a sicrhau gwerth am arian. O gofio nad oes gennym unrhyw ffydd yn y trefniadau cytundebol presennol erbyn hyn, credwn y byddai'n well pe baem yn cymryd camau unioni yn awr yn hytrach nag wynebu dyfodol ansicr a chostus o bosibl. Credaf fod y camau a nodwyd yn y cynnig yn rhoi'r ffordd orau ymlaen er mwyn sicrhau y bydd gan bobl Cymru a'r Cynulliad yr adeilad o fri yr oeddem oll yn ei ragweld, ond yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.

The Presiding Officer: If it appears that we will continue after 5.30 p.m., I will ask the Minister for Assembly Business to propose a further procedural motion to allow us to continue after that time and I will call a vote on that.

Nick Bourne: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw William Graham. Gwelliant 1: dileer popeth a rhoi '*Canslo prosiect Adeilad newydd y Cynulliad'* yn ei le.

Cynigiaf welliant 4. Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

cyhoeddi ar unwaith y costau llawn a dalwyd neu a ymrwymwyd i'w talu am Adeilad newydd y Cynulliad hyd yn hyn.

Cynigiaf welliant 5. Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

cyhoeddi ar unwaith y rhesymau am derfynu'r contract gyda Phartneriaeth Richard Rogers a'r costau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw.

Cynigiaf welliant 6. Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

cyhoeddi ar unwaith gostau peidio â pharhau â Phrosiect Adeilad newydd y Cynulliad.

Cynigiaf welliant 7. Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

gresynu'r methiant i gyhoeddi'r ffeithiau ynghylch canslo'r contract yn gynnar.
Cynigiaf welliant 8. Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

gohirio'r penderfyniad ar Adeilad newydd y Cynulliad hyd nes y sefydlir yr holl ffeithiau a'r ffigurau ynghylch costau'r prosiect a dalwyd neu yr ymrwymwyd i'w talu hyd yn hyn, ac y cyhoeddir costau canslo'r cytundeb gyda Phartneriaeth Richard Rogers, gan alw'r Cynulliad cyfan yn ôl dros Doriad yr Haf os oes angen.

Lywydd, diolch ichi am fod yn hyblyg wrth nodi y gall y ddadl hon barhau ar ôl 5.30 p.m. Gobeithiaf y bydd hynny'n rhoi cynsail synhwyrol hyd yn oed os na ddaw unrhyw beth synhwyrol yn sgîl y penderfyniad i ddychwelyd at y mater hwn unwaith eto. Gresynaf wrth y ffaith bod hyn wedi'i gyflwyno inni mor hwyr. Pe na baech wedi bod mor hyblyg, ni fyddem wedi cael digon o amser i gynnal dadl ar y mater hwn. Ni allaf ddeall pam bod hyn yn angenrheidiol. Nid ydym wedi cael yr holl fanylion. Dylai pob Aelod o'r Cynulliad gael y manylion a dylent fod ar gael i'r cyhoedd, er mwyn iddynt gael gweld beth a gaiff ei wneud yn eu henw hwy. Ni allaf ddeall pam na ddigwyddodd hynny.

Mae'n ddigon posibl mai canslo'r adeilad yw'r opsiwn mwyaf synhwyrol ar hyn o bryd. Ni chawsom wybodaeth ynglyn â chost canslo. Fodd bynnag, gwelais ddogfen awdurdodol, efallai yr hoffai'r Gweinidog wneud sylwadau arni, sydd yn nodi mai cost canslo fyddai £10 miliwn ar hyn o bryd. Noda'r ddogfen honno hefyd y byddai'n costio o leiaf £47 miliwn inni fwrw ymlaen â'r adeilad. Noda'r un ddogfen nad oes unrhyw un yn hyderus y caiff y prosiect ei gyflawni am lai na £47 miliwn na bod eitemau megis y to wedi eu cynnwys yn y gost honno. Y tro diwethaf imi edrych ar y tywydd, ymddengys imi y byddai to yn hanfodol. Os bydd hynny yn peri i'r gost gynyddu eto, ymddengys fod yr amcangyfrif gwreiddiol sef £50 miliwn a grybwyllwyd gennym, a chawsom ein cyhuddo o godi bwganod o'r herwydd, yn nes at y gwirionedd. Ymddengys mai £50 miliwn fydd cost yr adeilad hwn erbyn hyn, sydd yn swm enfawr ar unrhyw gyfrif.

5:00 p.m.

Bu sôn y byddai'r adeilad yn symbol o'r Gymru newydd, ond y bore yma pan edrychais allan o'r ffenestri ar ochr arall yr adeilad hwn ar y twll du lle y bydd adeilad newydd y Cynulliad, rhaid imi ddweud ei fod yn edrych fel symbol o'r drychineb—ac yr wyf yn falch bod Prif Weinidog Cymru wedi dychwelyd i'r Siambr—a wyneba'r weinyddiaeth hon. A bod yn deg â Rhodri Morgan, ceisiodd adolygu'r penderfyniad ar yr adeilad newydd yn gynnar. Ni chredaf ei fod o blaid ei adeiladu. Nid oedd o blaid yr opsiwn hwn pan gynhaliwyd pleidlais arno y tro diwethaf. Ar yr adeg hon, oni fyddai'n synhwyrol canslo'r prosiect a chanolbwyntio ar faterion sydd o bwys i bobl Cymru,

megis iechyd, addysg a gwasanaethau gwledig? Nid ydym wedi cael yr holl ffigurau, felly ni allwn fod yn sicr, ond gwelais ddogfennau sydd yn nodi mai canslo yw'r opsiwn synhwyrol. Os yw'r manylion a welais yn gywir, byddai bwrw ymlaen â'r prosiect yn gostus.

Anogaf Edwina Hart—bu ganddi enw da am fod yn agored cyn hyn, ond niweidiwyd hwnnw i raddau yn sgîl hyn—i gyhoeddi'r ffigurau fel y gallwn oll eu gweld. Er mwyn inni wneud penderfyniad ar hyn, dylai'r ffigurau fod ar gael inni ac ni ddylid bod wedi eu hadrodd yn gyflym inni ar ddechrau dadl lle nad oes gennym gopi o'r datganiad ger ein bron. Nid dyna'r ffordd y dylai'r Cynulliad hwn weithredu. Felly, anogaf y Gweinidog i gyhoeddi'r ffigurau. Dylem gael ein galw yn ôl, os bydd angen, yn ystod toriad yr haf i ystyried y mater hwn, os daw'r manylion i law.

Nid ymlawenhaf o gwbl wrth ddweud bod hyn yn drychineb yn yr arfaeth ac y gallwn fod wedi ei rhagweld. Mae'r mater hwn yn fwy difrifol na gwleidydda pleidiol. Effeithia ar sefydliad y Cynulliad a'r ddelwedd o Gymru. Fel y dywedais, mae'r twll du wrth ymyl adeilad y Cynulliad yn symbol o hynny. Gobeithiaf nad felly y bydd pobl yn cofio tymor cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond nid wyf wedi clywed unrhyw beth y prynhawn yma sydd yn fy narbwyllo fel arall. Gwastraffwyd arian, amser ac ymdrech. Mae'r mater hwn yn dychwelyd dro ar ôl tro. Oni ddylem ganslo'r prosiect hwn yn awr neu, o leiaf, weld yr holl fanylion er mwyn inni allu wneud penderfyniad synhwyrol yn hytrach na gwastraffu rhagor o arian?

Michael German: Cynigiaf welliant 2. Ychwaneger fel pwynt newydd:

ar ôl i'r tendrau ddod i law ac ar ôl eu hystyried, cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i argymell p'un a ddylai'r prosiect barhau, ac os felly, ar ba sail.

Yr wyf wedi dod i gasgliad gwahanol i'r Ceidwadwyr ar hyn, fel y gwnaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Pleidleisiwyd o blaid yr adeilad hwn gennym ym mis Mehefin y llynedd, a phleidleisiwyd, fel yr argymhellwyd, o blaid sicrwydd. Mae gohirio'r prosiect heddiw yn enghraifft o reoli doeth. Gwnawn ohirio'r broses hon, nid ei chanslo neu roi gorau iddi a wnawn, er mwyn cael mwy o sicrwydd ac eglurder ynglyn â'r ffigurau. Mae hynny'n ddewis doeth am fod llawer ohonom yn teimlo ein bod wedi ein siomi gan y broses a arweiniodd at gostau uwch na'r disgwyl. Teimlwn nad ydym wedi cael y ffigurau pwysig y gallem fod wedi gweithio arnynt, na'r sicrwydd yr oeddem am ei gael. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn heddiw er mwyn rhoi mwy o sicrwydd inni.

Nid yw'n weithred na ellir ei dadwneud. Yr ydym yn gwneud penderfyniad yn awr pa un a ydym am gael amser i brofi'r farchnad i ganfod a all roi mwy o sicrwydd inni, a fyddai wedyn yn rhoi arweiniad inni wrth wneud penderfyniad terfynol. Mae'r Cynulliad yn penderfynu ar y pwer i atal, newid neu ddiwygio'r prosiect hwn yn sylweddol, o ran ei broffil ariannol. Byddai ein cyd-Aelodau yn Llundain a Chaeredin wedi bod wrth eu bodd i gael y cyfle i wneud hynny. Atgoffaf Nick o brosiect anffodus y Llywodraeth Geidwadol, sef Portcullis House, a godwyd er gwaethaf y ffaith i'r costau fynd y tu hwnt i'r gyllideb o bell ffordd. Yn wahanol inni heddiw, ni allai fod

wedi gwneud y penderfyniad i ohirio, cyfeirio, atal, newid na diwygio. Mae Senedd yr Alban wedi wynebu'r un broblem o ran mynd y tu hwnt i'r gyllideb. Yr ydym yn ffodus, am fod gennym rwystrau a gwrthbwysau priodol yn y system, sydd yn ein galluogi i ddilyn y proffil ariannol cywir a bod mewn sefyllfa i ailystyried a newid cyfeiriad. Mae fy ngwelliant 2 i a gwelliant 3 Plaid Cymru sydd yn debyg iddo, yn atgyfnerthu'r sefyllfa honno. Dyna pam ein bod yn ymddwyn yn ddoeth.

Mae'n hanfodol i bobl wybod bod y defnydd o ddeunyddiau Cymreig yn fater pwysig o hyd. Clywsoch gan y Gweinidog nad oedd y rhain yn ffactorau pwysig o safbwynt mynd y tu hwnt i'r gyllideb. Gwyddom mai elfen fach o'r ffigurau a gyflwynwyd inni ar ddeunyddiau Cymreig yw'r costau hynny. Fodd bynnag, ni ddylem roi'r gorau i'n hymrwymiad i ddefnyddio deunyddiau o Gymru, megis coed a llechi, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Byddai hynny'n symbol pwysig os bwriwn ymlaen â'r adeilad. Yn yr un modd, ni ddylem roi gorau i'n hymrwymiad i ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy ac sydd yn effeithlon o ran ynni o fewn yr adeilad. Nid yw'r rhain yn newid y gwahaniaethau mewn cost a wynebwn yn awr yn sylweddol.

Byddai'n annoeth i'r Cynulliad hwn barhau ar yr un trywydd. Dyna pam y cefnogaf y gwelliant a'r cynnig hwn. Rhydd gyfle inni, fel Cynulliad, fwrw ymlaen â datblygiad yr ydym wedi pleidleisio arno lawer gwaith. Bydd yn caniatáu inni roi rhwystrau a gwrthbwysau na fu'n bresennol yn amlwg mewn adeiladau eraill o'r fath. Mae'r rhwystrau a'r gwrthbwysau hynny yn ein rhoi mewn gwell sefyllfa nag erioed. Felly teimlaf mai honno yw'r ffordd gywir ymlaen. Nid ydym yn mabwysiadu ymagwedd negyddol. Yr ydym yn petruso, yn ailfeddwl ac yn cadw at y farn ein bod am i'r adeilad hwn gael ei godi o fewn terfyn ariannol priodol, sef diben y cynnig hwn.

Cynog Dafis: Cynigiaf welliant 3 yn enw Jocelyn Davies. Ychwaneger fel pwynt newydd:

ar ôl i'r tendrau ddod i law ac ar ôl eu hystyried, cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i argymell p'un a ddylai'r prosiect barhau, ac os felly, ar ba sail.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig. Yr ydym wedi cyflwyno gwelliant a fabwysiadwyd, wedi inni ei ddrafftio, gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae problem ramadegol gyda geiriad y cynnig. Yr wyf yn siwr bod modd cymhwyso hynny.

Mae datganiad Edwina Hart yn achosi diflastod inni i gyd. Mae'n achosi, yn ddiamau, peth llawenydd ymysg Ceidwadwyr Cymru, ond diflastod i'r rhan fwyaf ohonom. Mae hefyd yn achosi cryn dipyn o ddicter. Mae'n anfoddhaol ein bod yn wynebu'r cynnydd posibl hwn yng nghost yr adeilad ar yr adeg hon.

Mae'r math hwn o gynnydd mewn cost yn digwydd yn aml, fel y dywedodd Mike German. Digwyddodd gyda Senedd yr Alban a Portcullis House. Fodd bynnag, ni ddylem ddefnyddio hynny fel esgus. Dylai'r ffaith iddo ddigwydd yn yr achosion hynny fod wedi ein gwneud yn fwy gwyliadwrus. Dylem fod wedi rhagweld y math o bethau sydd yn digwydd gydag adeiladau o fri. Mae adeiladau cyhoeddus weithiau yn rhoi cyfle i ddatblygwyr wneud elw oherwydd eu statws uchel.

Mae'n amlwg i mi, serch hynny—ac mae'n bwysig cofnodi hyn—bod y bai pennaf yn y mater hwn, heb unrhyw amheuaeth, ar Bartneriaeth Richard Rogers, gan mai ar sail ei ffigurau y penderfynwyd bwrw ymlaen â'r prosiect. Yr oeddem yn hyderus bod y ffigurau'n ddilys.

Cofiaf fynychu cyflwyniad gan Bartneriaeth Richard Rogers ac yr oedd Richard Rogers ei hunan yn bresennol. Cofiaf ofyn iddo'n benodol pa warant y gellid ei roi bod modd codi'r adeilad o fewn y gost amcangyfrifedig. Dywedodd Richard Rogers yn y cyfarfod hwnnw ei fod yn hyderus y gellid gwneud hynny a chyfeiriodd at record ei gwmni wrth godi adeiladau cyhoeddus, a oedd yn cadarnhau hynny.

Mae angen inni—ac yr wyf yn cadarnhau yr hyn sydd wedi cael ei ddweud yn barod—wrthod yr awgrym mai gofynion ychwanegol y Cynulliad, megis defnyddio deunyddiau Cymreig a mynediad i'r methedig, sydd wedi achosi'r codiad hwn. Materion ymylol yw'r rhai hynny yn nhermau'r codiad y cyfeiriwn ato.

Felly, mae bai ar Rogers. Defnyddiwyd y gair 'twyll' gan bobl yn y cyd-destun hwn. Mae'n air addas. Mae'n air cryf.

5:10 p.m.

Y Llywydd: Trefn. Byddwn yn gofyn i chi ailystyried y gair 'twyll', gan y gallai gael ei ddehongli fel sarhad ar berson nad yw'n Aelod o'r Cynulliad.

Cynog Dafis: Yr wyf yn fodlon ailystyried fy nefnydd o'r gair.

Serch hynny, mae angen darganfod pam nad oedd rheolydd y prosiect na thîm y prosiect wedi rhagweld y problemau hyn yn gynt, ac wedi darparu ar eu cyfer. Dylid bod wedi ystyried y ffaith fod gennym adeilad arloesol a phrosiect o fri yn y rhagweliadau ynghylch cost y prosiect yn y lle cyntaf.

Wedi dweud hynny, mae'n dda bod gennym y cyfle yn awr i gamu i mewn—a dyna sy'n digwydd heddiw—cyn colli rheolaeth yn llwyr ar y prosiect, fel sydd wedi digwydd yn achos Senedd yr Alban a Portcullis House. Mae grwp Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig. Dylai'r gwaith gael ei ohirio a dylem derfynu'r cytundeb gyda Phartneriaeth Richard Rogers. Cytunwn y dylem droi at dendro cystadleuol er mwyn dod o hyd i ddatblygydd i barhau â'r cynllun, gyda'r opsiwn o brynu neu brydlesu'r adeilad am gyfnod cyn iddo ddod yn eiddo i'r Cynulliad gydag amser.

Y cam nesaf fyddai cytundeb ar bris. Byddai risg unrhyw gynnydd mewn cost yn cael ei ddadlwytho ar y datblygwyr. Dyna'r unig ffordd gyfrifol i symud ymlaen ar hyn o bryd. Golyga hynny y byddai gan y datblygwr gymhelliant i reoli'r pris, sy'n wahanol i'r sefyllfa bresennol. Mae'n drueni na fyddem wedi dewis y llwybr hwnnw yn y lle cyntaf. Byddai'n dda cael ateb ynglyn â pham na wnaethpwyd hynny. Serch hynny, mae angen sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y methedig yn cael ei diogelu o hyd. O bopeth yn y byd, mae'n rhaid sicrhau hynny. Yn ogystal, rhaid gofalu nad yw ansawdd yr adeilad yn cael ei fforffedu. Mae angen sicrhau bod yr adeilad yn esiampl o

ddatblygu cynaliadwy ac y defnyddir deunyddiau Cymreig. Yn fy marn i, mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer yr holl brosiect.

Mae grwp Plaid Cymru bob amser wedi cefnogi'r egwyddor o gael dadleudy newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae hynny'n bwysig o hyd. Fodd bynnag, ni wnaethom gefnogi adeilad o'r math hwnnw am bris o £40 miliwn a mwy. Felly, mae ein gwelliant yn ddigon clir. Cyfrifoldeb y Gweinidog yn awr yw gweinyddu'r prosiect. Ei chyfrifoldeb hi yw argymell i'r Cynulliad a ddylid bwrw ymlaen â'r prosiect neu beidio.

Hoffwn wybod beth sydd gan y Gweinidog i'w ddweud ynglyn â gwelliannau Ceidwadwyr Cymru. O'n rhan ni, mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth ar gael yn gyhoeddus. Nid yw celu gwybodaeth yn dderbyniol. Ceir adegau pan fo hynny'n briodol, ond yn hwyr neu'n hwyrach rhaid datgelu'r gwirionedd. Mae'n rhaid gwneud unrhyw benderfyniadau ar sail y gwirionedd.

Felly, rhaid derbyn, os nad oes modd cyflawni'r gwaith am bris fforddadwy, bod posibilrwydd o beidio â bwrw ymlaen â'r cynllun hwn. Mae'n fater agored. Rhaid inni gael neges glir i'r perwyl hwnnw.

Dyma safbwynt grwp Plaid Cymru. Hoffem weld y Cynulliad Cendlaethol yn cael cartref teilwng. Mae'n bwysig bod hynny'n digwydd. Nid yw'r adeilad hwn yn gartref teilwng. Mae'n gartref hollol anaddas. Gwyr Ceidwadwyr Cymru hynny'n iawn waeth beth a ddywedant yn gyhoeddus. Fodd bynnag, os na allwn sicrhau cartref am bris credadwy mae'n bosibl yn y pen draw y bydd yn rhaid inni fyw hebddo.

Ron Davies: Bu'n siom imi glywed datganiad Edwina a gwn y byddai hi a'i chyd-Aelodau o'r pleidiau gwleidyddol eraill wedi cael amser anodd wrth ystyried y mater hwn. Ar ôl darllen yr adroddiad a gwrando ar ddatganiad Edwina, mae'n amlwg mai'r gwahaniaeth barn rhwng Partneriaeth Richard Rogers ac ymgynghorwyr arbennig Edwina sydd wrth wraidd y broblem a wynebwn. Credaf fod hynny yn rhoi'r rhan fwyaf ohonom mewn sefyllfa anodd. Gofynnir inni dderbyn bod gwahaniaeth barn, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o'r ddadl y gellid ei rhoi gerbron, mae'n siwr, o blaid Partneriaeth Richard Rogers. Ac eto, fel Cynulliad, gofynnir inni gymeradwyo'r penderfyniad a osodwyd ger ein bron.

Derbyniaf fod yn rhaid inni wneud penderfyniad ac yr wyf yn barod i gefnogi argymhelliad Edwina. Gwn fod Edwina yn ystyried gwrthod y gwelliant yn enw William Graham. Fodd bynnag, gofynnaf iddi dderbyn y ffaith bod y Cynulliad mewn sefyllfa anodd. Gofynnwyd iddo gymeradwyo'r penderfyniad hwn yn ddi-gwestiwn. Deallaf fod materion sydd yn ymwneud â chyfrinachedd masnachol, ond gofynnaf i Edwina gydnabod hyd yn oed os na all dderbyn y gwelliannau hyn heddiw—a gwerthfawrogaf hynny—addo y caiff pob darn o wybodaeth berthnasol, heblaw gwybodaeth y mae'n rhaid ei diogelu oherwydd cyfrinachedd masnachol, ei rhoi yn eiddo cyhoeddus ar y cyfle cyntaf.

Ymddengys imi mai'r broblem yw bod gennym Bartneriaeth Richard Rogers ar y naill law a'r ymgynghorwyr proffesiynol ar y llaw arall. Nid cwmni dibwys yw Partneriaeth

Richard Rogers o bell ffordd. Mae iddo enw rhyngwladol. Enillodd gystadleuaeth ryngwladol. Dyfarnwyd ei gynllun, sydd wedi ysbrydoli llawer o bobl, gan banel annibynnol. Ar y llaw arall, ceir ymgynghorwyr proffesiynol. Maent yn newid yn ddibaid, mae rhai yn fewnol a rhai yn allanol. Rhaid dweud na fuont yn llwyddiannus iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gallaf gofio fy nheimladau o hyder a gorfoledd tua 12 mis yn ôl, pan ddywedwyd wrthym am adroddiad Turner and Townsend. Craffwyd ar bob agwedd ar y prosiect. Cawsom asesiad risg, a olygai ohirio'r prosiect am dri mis. Dim ond £300,000 oedd y gost ond eto i gyd, rhoddwyd sicrwydd inni ein bod ar y trywydd iawn, y byddem yn gwybod am unrhyw beth a allai ddigwydd ac y gallem fwrw ymlaen â'r contract yn gwbl hyderus. Yr oedd rhywun yn anghywir. Asesiad risg ydoedd, ond ni ragwelodd y risg benodol a wynebwn yn awr.

Yr anhawster o safbwynt prosiectau o'r fath yw mai dim ond hanner orffenedig yw cynllun y pensaer. Mae elfen anochel o ddeinamig yn perthyn iddo. Rhaid i'r prosiect dyfu. Pan ddigwydd hynny, bydd bob amser yn arwain at bethau annisgwyl. Ymddengys imi mai problem bresennol y Cynulliad yw bod ganddo obsesiwn gyda chost. Nid yw wedi rhoi ystyriaeth briodol i werth am arian, a'r hyn y dylai adeilad y Cynulliad fod.

Gobeithiaf na fyddwn yn peri niwed i ni ein hunain y prynhawn yma. Paratowyd y cynllun hwn gan bensaer ag iddo enw da yn rhyngwladol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym bellach bod yn rhaid newid cwmpas yr adeilad, y to a'r bensaernïaeth fewnol. Gobeithiaf na fyddwn yn cychwyn ar brosiect lle y bydd contractwyr di-enw—gobeithiaf y gallwch ddod o hyd iddynt, Edwina, ond ni wn o ble y deuant—yn cael gwared o rannau penodol o'r cynllun. Beth fydd y canlyniad terfynol? Nid yr adeilad o fri, yn ôl cynllun Partneriaeth Richard Rogers, yr ydym wedi ymrwymo iddo. Cawn rywbeth a fydd yn addas at ei ddiben yn y pen draw, ond yn sicr ni fydd yn bodloni ein dyheadau ehangach.

Gorffennaf drwy nodi nad oes unrhyw opsiwn gennym ond derbyn yr argymhellion a osodwyd ger ein bron gan Edwina â chalon drom. Gobeithiaf na fyddwn yn aberthu egwyddorion gwerth am arian oherwydd syniadau am gost neu bris, nac yn anghofio'r mater ehangach o godi—gadewch inni ddweud hynny—adeilad o fri yn bensaernïol a gaiff ei gydnabod ledled y byd.

Gobeithiaf, Edwina, y caiff eich argymhelliad ei dderbyn. Fodd bynnag, gobeithiaf hefyd na fydd yn rhaid inni ddychwelyd at y mater hwn drachefn ymhen chwe neu naw mis am fod yr ymgynghorwyr proffesiynol yn anghywir.

Dafydd Wigley: Cyfeiriodd Cynog at ei ddicter ynglyn â'r sefyllfa a wynebwn heddiw. Rhaid cyfaddef fy mod innau yn gandryll amdani. Credaf inni gael ein camarwain—heb feio neb, gan nad ydym mewn sefyllfa i wybod pwy a gamarweiniodd pwy. Nid oes amheuaeth inni ddilyn y llwybr hwn gan ddisgwyl i'r prosiect ddod i fwcwl am gost sylweddol is na'r hyn sydd yn edrych yn debygol.

5:20 p.m

Fel y dywedodd Ron, os gwnaethpwyd camgymeriadau yn y broses hyd yma, sut y gwyddom na wneir camgymeriadau yn y dyfodol? Sut y gallwn gael sicrwydd am y ffigurau yr ydym yn gweithredu arnynt? Cyfaddefaf yn barod, fel y gwyr fy nghyfeillion yng ngrwp Plaid Cymru, imi gefnogi'r opsiwn o leoli'r Cynulliad yn Neuadd y Ddinas. Derbyniais y penderfyniad i'w leoli yma am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith yr ymddangosai y byddai lleoli'r Cynulliad yn Neuadd y Ddinas yn ddrutach o lawer na'r gost o godi adeilad newydd yma. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn gwneud i'r sefyllfa a'r dadansoddiad hwnnw edrych yn chwerthinllyd. Ar ba sail yr ydym, fel corff, yn cael ein harwain i wneud penderfyniadau? A gawsom gyngor digonol? Er na wn yn union ym mha le y mae'r bai, gwn fod bai ar rywun ar ryw gam o'r broses.

Yr wyf wedi archwilio'r ffigurau ar y cynnydd yng nghost y prosiect. Bu'r costau yn cynyddu ers mis Tachwedd diwethaf hyd yn oed. Cynyddodd cost cragen y to o £560,00 i £1.6 miliwn, sef cynnydd o 200 y cant. Cynyddodd cost gosod gwydr o £1.2 miliwn i £1.7 miliwn o fewn saith neu wyth mis. Cynyddodd cost gorchudd pren o £200,000 i £1.2 miliwn a chynyddodd cost gwaith metel o £240,000 i £547,000. Rhaid y gellid bod wedi asesu'r costau cynyddol hyn, sydd yn cyfrif am y costau yr ydym yn eu trafod heddiw, ar y pryd. Pa fwnglereiddiwch sydd wedi ein harwain at y sefyllfa heddiw lle y mae'n rhaid inni wynebu'r embaras o adeilad a fydd yn costio £40 miliwn neu hyd yn oed £50 miliwn o bosibl? Sut y gallwn egluro'r gost honno i'n hetholwyr ein hunain lle y mae'n rhaid ei wrthbwyso yn erbyn gwariant arall?

Gwyr pob Aelod fod y dadleudy hwn yn annigonol. Ni allwn weld ein gilydd, mae'r to yn rhy isel ac mae pileri. Mae angen adeilad teilwng arnom. Fodd bynnag, rhaid inni ofyn pa weithdrefnau a ddefnyddir gan y Cynulliad i asesu, cyfrifo a phenderfynu ar brosiectau gwariant cyfalaf mawr megis y prosiect hwn. Os gall y gweithdrefnau fynd o'i le, mewn perthynas â'n dadleudy, oni allant fynd o'i le gyda llu o brosiectau eraill, boed yn ysbytai, yn ysgolion neu'n adeiladau eraill, ledled Cymru? Rhaid inni fod yn gwbl sicr, fel cynrychiolwyr etholedig sydd â dyletswydd o warchod arian cyhoeddus, ein bod yn cael dadansoddiad cywir, gwybodaeth gywir a'n bod yn gwneud penderfyniadau ar sail gywir.

Cefnogaf y cynnig ond ni ddylai fod unrhyw amheuaeth, pan ddychwelwn at hyn—[Aelodau Ceidwadol o'r Cynulliad: 'O'].

Alun Cairns *a gododd—*

Dafydd Wigley: Cefnogaf y cynnig, am ei fod yn rhoi cyfle inni ystyried ffigurau amgen ac i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud penderfyniad. Penderfyniad amgen, Alun, yw peidio â pharhau â'r prosiect. Fodd bynnag, dim ond ar ôl inni gael yr holl fanylion y gallwn benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio. Cefnogaf y cynnig—er y gobeithiaf y caiff ei ddiwygio—er mwyn inni allu gwneud y penderfyniad hwnnw.

Rhaid i'r Cynullid roi'r neges i bawb sydd yn ystyried rhoi tendr ar gyfer y contract nad gwirion ydym. Ni chawn ein twyllo o ran y prosiect hwn nac unrhyw brosiect arall. Mae ein bwriad yn hysbys a chadwn at y bwriad hwnnw.

Alison Halford: Mae'n anodd dilyn y sylw hwnnw. Cytunaf â'r cyfan a ddywedodd Dafydd Wigley. Os oes unrhyw un am wybod beth aeth o'i le, argymhellaf adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Trefniadau Swyddfa ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru'. Mae'n ddeunydd darllen diflas. Ceir yr holl wybodaeth yn yr adroddiad. Mae Dafydd yn llygad ei le i ddweud ein bod wedi ein siomi. Cafodd Edwina Hart y cwpan gofidiau.

Gadewch inni ystyried yr hyn a ddigwyddodd. Ym mis Mawrth 1998, penderfynwyd y dylid cynnal cystadleuaeth bensaernïol i ddod o hyd i gynllun ar gyfer yr adeilad. Cyflwynwyd chwe chynllun i'r gystadleuaeth a neilltuwyd darn o dir. Nid oedd modd adeiladu pump o'r chwe chynllun o fewn y tir a neilltuwyd. Ac eto, bwriodd y swyddogion ymlaen â'r gystadleuaeth. Cyhoeddwyd enw'r pensaer a enillodd y gystadleuaeth. Fodd bynnag, ni chostiwyd y prosiect yn gywir. Ni lofnodwyd contract. Ddwy flynedd ar ôl i'r prosiect gychwyn, ni lofnodwyd contract hyd yn oed gyda'r pensaer. Beth arall aeth o'i le? Caniatawyd i Bartneriaeth Richard Rogers ddefnyddio ei syrfëwr meintiau ei hun. Cynyddodd ei ffioedd wrth i gost yr adeilad gynyddu 73 y cant. Onid oes hawl gennym ofyn pwy sydd yn gyfrifol am lunio'r contractau hyn a phwy a fu'n gyfrifol am y sefyllfa a wynebwn? Nid Aelodau meinciau blaen y Cynulliad. Nid myfi, er bod yn rhaid imi ddychwelyd i'r gogledd i esbonio'r gost fythol gynyddol i'm hetholwyr. Y swyddogion a gyflogir gennym sydd yn gyfrifol. A bod yn deg â'r swyddogion, ystyriwyd asesiad risg ganddynt—

Alun Cairns: Oni dderbyniwch nad cynrychiolwyr etholedig yw'r swyddogion, sydd yn gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn y pen draw? Nid yw'n ddigon da rhoi bai ar swyddogion. Rhaid i'r Gweinidogion fod yn atebol bob amser.

Alison Halford: Mae hynny'n annheg. Rhaid imi ddychwelyd i'r gogledd i ymateb i bobl sydd yn gofyn pam bod yn rhaid iddynt dalu'r arian hwn. Yr ydym yn talu swyddogion ac yr ydym yn talu arbenigwyr. A bod yn deg, mae'r arbenigwyr wedi ein siomi'n fawr hefyd. Cawsom ein siomi gan y broses gaffael, a fu'n ddiffygiol—

Cynog Dafis: A dderbynia Alison nad pobl gogledd Cymru yn unig sydd yn pryderu? Mae hwn yn achos pryder i bobl ledled Cymru?

Alison Halford: Derbyniaf hynny. Gwn nad yw'n beth cwrtais rhoi bai ar unrhyw un. Fodd bynnag, mae Dafydd yn llygad ei le. Rhaid inni gael adeilad Cynulliad. Gobeithio y gallwn ei godi heb gost ychwanegol. Gadewch inni geisio dysgu o'r camgymeriadau enfawr a wnaethpwyd. Duw a wyr, os darllenwch adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, cewch weld nifer y camgymeriadau a wnaethpwyd. Cytunaf â Dafydd ein bod wedi ein siomi'n fawr. Mae'n ofnadwy bod cymaint o bethau wedi mynd o'i le. Gweithiodd y Cynulliad yn galed i atal hynny rhag digwydd. Cytunaf y dylai Edwina ystyried hyn. Dylem oll ei ystyried, fel y dywedodd Dafydd, mae hyn yn digwydd dro ar ôl tro. Rhaid inni ddod o hyd i ffordd o gostio adeilad drud yng Nghymru a chadw at y costau hynny.

Cynnig Trefniadol

Y Llywydd: Tynnaf sylw'r Aelodau at y ffaith y byddwn yn mynd yn groes i'r Rheolau

Sefydlog pe baem yn parhau â'r ddadl heb gynnal pleidlais gan na fwriadwyd i'r busnes hwn barhau ar ôl 5.30 p.m. Felly, gwahoddaf y Trefnydd i gynnig cynnig trefniadol i ymestyn y Cyfarfod heddiw.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol, dan Reol Sefydlog Rhif 6.16, yn caniatáu i'r ddadl ar adeilad newydd y Cynulliad barhau wedi 5.30 p.m.

Cynnig: O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 2.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Bourne, Nick Burnham, Eleanor Cairns, Alun Davies, Andrew Davies, David Davies, Geraint Davies, Glyn Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Edwards, Richard Evans, Delyth German, Michael Gibbons, Brian Graham, William Gregory, Janice Griffiths, John Gwyther, Christine Hart, Edwina Hutt, Jane Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Law, Peter Lewis, Huw Lloyd, David Melding, David Middlehurst, Tom Morgan, Jonathan	Halford, Alison Pugh, Alun

Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Randerson, Jenny Richards, Rod Rogers, Peter Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty Williams, Phil	

Derbyniwyd y cynnig.

Adeilad Newydd y Cynulliad: Parhad

William Graham: Fel y disgrifiodd Alison, cwpan gofidiau yw hwn. Nid yw'r ffaith bod ein rhybuddion dros y ddwy flynedd diwethaf wedi'u cyfiawnhau o unrhyw gysur i Geidwadwyr Cymru. Ni rydd hynny unrhyw foddhad inni. [Aelodau o'r Cynulliad: 'O.'] Mae'n bwynt difrifol. Rhaid inni sicrhau na wastraffir rhagor o arian y trethdalwyr. Gwyddom y gallai cost yr adeilad fod yn uwch na £50 miliwn. Atgoffaf yr Aelodau i'r pensaer awgrymu'n wreiddiol na fyddai'r adeilad yn costio mwy na £13 miliwn. Cawsom ein camarwain dro ar ôl tro. Rhaid inni ond ystyried cynsail Senedd yr Alban. Mae cost yr adeilad hwnnw yn £250 miliwn ac mae'n parhau i godi. A ddywed y Gweinidog wrthym lle y digwyddodd y chwalfa? Beth yw'r rhesymau dros gefnu ar Bartneriaeth Richard Rogers? Ni all fod am resymau caffael, oherwydd yr oedd y rheini yn y brîff cynllunio gwreiddiol. Yr oedd bob amser yn hysbys y dylid defnyddio deunyddiau Cymreig. Yr oedd yr amcangyfrif yn hynod annigonol. Mae pryderon ynglyn â'r dechnoleg mur gwydr. Wedi'r cyfan, ni chafodd ei phrofi'n dechnegol, a phrin yw'r enghreifftiau ohoni. Mynegwyd pryderon eisoes ynglyn â strwythur y to. Mae hwnnw'n destun pryder. A ddywed y Gweinidog wrthym faint yw cost rhoi terfyn ar y cynllun? Ai contract cynllunio ac adeiladu oedd hwn? Nid yw dweud ein bod yn dewis rhyw fath o fenter cyllid preifat yn ateb. Rhoddwyd ffigurau ariannol annigonol. A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ffigurau cywir cyn gynted â phosibl? O ran cost cwtogi ar y prosiect, dim ond dechreuadau'r sylfeini—sef y pyst yn unig—a osodwyd. Gellid defnyddio'r rheini yn hawdd pe bai'r safle'n cael ei werthu i brosiect arall.

Bydd llunio contract pris sefydlog yn hollol amhosibl. Fodd bynnag, gofynnaf i'r Gweinidog gynnig sylw ar hynny. Gofynnwn ichi ystyried ein gwelliannau gan ddangos y pryder mwyaf posibl a'u cefnogi.

Lorraine Barrett: Mae'n anodd gwybod beth i'w ddweud. Mae hyn yn siom ond yr wyf yn ymrwymedig i'r prosiect o hyd ac i'r cysyniad o Siambr ddadlau newydd—sef y Siambr ddadlau hon, gobeithio.

Byddai atal hyn rhag mynd yn ei flaen, fel y mae'r Ceidwadwyr am inni ei wneud, yn gam enfawr yn ôl i Gymru. Byddai'n waeth na methu â chodi ty opera Zala Hadid. Beth sydd yn bod ar Gymru? Onid oes gennym weledigaeth? A gawn ein hystyried fel gwlad ddifenter a diweledigaeth am byth gan y rheini sydd yn parchu ansawdd a chreadigrwydd? Dyna oedd diben yr adeilad newydd. Yr oedd nifer o newyddiadurwyr Siapaneaidd yma heddiw. Yr wyf yn siwr na chreodd ein hadeilad presennol argraff arnynt. Esgus o adeilad Llywodraeth yw hwn wrth inni siarad am y Gymru newydd, hyderus, a dweud ein bod yn chwilio am ein lle yn y byd ac yn defnyddio ystrydebau eraill o'r fath am Gymru.

Gan droi at y Ceidwadwyr, gallem ganfod pethau eraill i wario'r arian arnynt bob amser. Dyna sydd yn wir am bob penderfyniad a wnawn. Mae'n hawdd i'r rhagrithwyr ar ochr arall y Siambr ddweud 'dylid rhoi stop ar yr adeilad hwn'.

Nick Bourne *a gododd—*

Lorraine Barrett: Nid wyf yn ildio.

Pan gaiff y Siambr newydd, yr ystafelloedd Pwyllgor newydd a'r mannau cyhoeddus newydd eu cwblhau, byddant yn mwynhau'r cyfleusterau gwell—

Y Llywydd: Trefn. Fe'ch clywais yn defnyddio'r gair 'rhagrithiwr'. Gofynnaf i chi ailystyried hynny.

Lorraine Barrett: Fe'i hailystyriaf.

Y Llywydd: A wnewch chi aralleirio—

Lorraine Barrett: Na wnaf. Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd, ond dywedodd sawl un ohonynt wrthyf yn breifat eu bod yn edrych ymlaen at yr adeilad newydd ac y byddant yn ei fwynhau pan gaiff ei adeiladu.

Y Llywydd: Trefn. Nid ystyriaf fod y defnydd o'r gair 'rhagrithiwr' yn unol â'r Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr.

Lorraine Barrett: Er eich mwyn chi, fe'i tynnaf yn ôl yn awr.

Y Llywydd: Gofynnaf ichi aralleirio eich sylwadau.

Lorraine Barrett: Cyfeiriaf atynt fel Torïaid ffuantus.

Y Llywydd: Trefn. Mae hefyd yn amhriodol disgrifio grwp Ceidwadwyr Cymru fel Torïaid. Trafodasom hyn o'r blaen.

Lorraine Barrett: O'r gorau. Bydd y Ceidwadwyr ar yr ochr arall yn mwynhau'r adeilad newydd pan gaiff ei adeiladu, fel y dywedasant wrthyf yn breifat. Ni thorraf ymddiriedaeth drwy grybwyll enwau.

Croesawn ymwelwyr o bedwar ban y byd, pa un ai o Fangor, y Barri, Bahrain neu Bermwda. Nid yw'r adeilad hwn a'r Siambr hon yn ddigon da ar gyfer Cymru nac ar gyfer unrhyw wlad arall.

Nick Bourne *a gododd—*

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn ildio i arweinydd Ceidwadwyr Cymru?

Lorraine Barrett: Nac ydwyf. Yr wyf am orffen hyn.

Mae hwn yn ddiwrnod trist ond ni ddylem roi'r ffidil yn y to. Rhaid inni sicrhau adeilad teilwng ar ran Llywodraeth Cymru. Os yw cael adeilad seneddol teilwng yn ddigon da ar gyfer yr Alban ac ar gyfer y DU, mae'n ddigon da i ni. Fwy na thebyg mae'n rhy hwyr, ond a ystyriodd y Gweinidog ddwyn Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain a'i debyg i gyfryngu mewn trafodaethau? Gresynaf na chaiff enw Richard Rogers ei gysylltu â'r adeilad hwn. Os gall Bilbao ei wneud, pam na allwn ni?

Derbyniaf y cynnig gyda chalon drom, fel y dywedodd Ron. Mae cyfrifoldeb gennym dros ddiogelu'r pwrs cyhoeddus, ond mae cyfrifoldeb gennym hefyd dros beidio â gwneud i Gymru edrych fel tref wladaidd hen ffasiwn.

Glyn Davies: Dyma draed moch yw hwn. Yr ydym yn wynebu cawl cywilyddus o'r radd flaenaf heddiw. Dros y ddwy flynedd diwethaf, sefais yn y Siambr hon ar sawl achlysur a gofynnais, erfyniais ac ar adegau bwliais hyd yn oed, i geisio darbwyllo'r Aelodau i beidio â mynd ymlaen â'r prosiect hwn. Rhybuddiais ynglyn â'r costau, a dywedais eu bod wedi'u tanbrisio'n enbyd. Dywedais hefyd ei fod yn gamgymeriad enfawr inni hyd yn oed ystyried gwneud buddsoddiad o'r math hwn tan inni gyflawni rhywbeth a bod gan bobl Cymru hoffter gwirioneddol o'r lle hwn a'i fod yn rhywbeth y gallem ei wneud gyda rhywfaint o gefnogaeth. Yn achlysurol, siaradais yn afresymol. Yn achlysurol, siaradais yn ddig. Cofiaf un achlysur pan siaradais â chymaint o ffyrnigrwydd am rinweddau Prif Weinidog Cymru fel arweinydd nes iddo anelu at y rostrwm i roi taw arnaf. Credaf y gall pob un ohonom gofio'r achlysur hwnnw.

Ar yr achlysur hwn, fy mhrif bryder yw na ddywedwyd y gwir wrth bobl Cymru ac Aelodau'r Cynulliad. Cofiaf yn iawn drafod y cynllun hwn gydag adeiladwr a wyddai yn union beth fyddai cost y math hwn o brosiect. Dangosais y model iddo. Dywedodd wrthyf y byddai'n costio £30 miliwn o leiaf pe gellid adeiladu'r peth bondigrybwyll.

Y gost bryd hynny oedd £22.8 miliwn; bellach mae dros £40 miliwn, ac efallai yn £50 miliwn. Ni all y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau roi unrhyw sicrwydd inni na fydd y costau'n cynyddu ymhellach. Ceir amheuaeth ynglyn ag ymarferoldeb adeiladu'r adeilad—ynglyn â'r to. Ni chlywais erioed am adeilad a oedd wedi hanner ei adeiladu nes inni wybod y gallem roi to arno, ar wahân efallai i bwll nofio awyr agored. Mae'n hollol warthus.

Mae'n deg beio'r Arglwydd Rogers, ond nid ef yn unig y dylem ei feio. Rhaid i'r Llywodraeth a Phrif Weinidog Cymru rannu peth o'r bai. Cyfeiriais at ddiffyg arweiniad o'r blaen. Hyd yn oed yn awr, ni wn beth yw safbwynt Prif Weinidog

Cymru—efallai y dywed wrthym yn ystod y ddadl hon. Ni wyddom a yw'n ffafrio'r adeilad newydd, a yw'n ffafrio estyniad, yr oeddwn yn anfoesgar ynglyn ag ef, neu a yw'n ffafrio peidio â mynd ymlaen â'r cynllun o gwbl. Nid yw am ddweud wrthym. Efallai y saif ar ei draed a dweud wrthym heddiw. Un opsiwn a wynebwn yw rhoi'r gorau i'r adeilad, fel y dymunwn ni. Yn ôl pob tebyg gallai hynny gostio £10 miliwn. Bydd yn rhaid inni ystyried hynny. Clywais Aelodau eraill yn siarad. Clywais Cynog Dafis a Dafydd Wigley'n cydnabod y gallai hynny fod yn wir. Clywais Mike German yn siarad, ond nid oeddwn yn siwr am beth yr oedd yn siarad o ran safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol. Soniwyd rhywbeth am sieciau a balansau. Meddyliais wrthyf fy hun, mai'r unig beth sydd ei angen arnom mewn gwirionedd yw sieciau mawr a balansau gwag. Ymddengys mai dyna oedd yr unig beth synhwyrol a ddywedodd.

Un pwynt y dymunaf ei wneud yw na theimlaf yn ddig o gwbl wrth siarad heddiw. Teimlaf yn wirioneddol drist oherwydd yr hyn a wnaiff hyn—nid yn unig yn ystod y ddadl hon, ond drwy gydol yr haf—i enw da nid dim ond y Cynulliad, ond enw da Cymru. Pan fydd rhywbeth yn gymaint o draed moch â hyn, bydd adroddiadau yn ei gylch ar y newyddion ledled Prydain, fe ddychmygaf, adlewyrcha ar bob un ohonom, waeth pa mor galed y dadleuasom yn erbyn y prosiect hwn. Gadewch inni feio'r Arglwydd Rogers—gellir cyfiawnhau hynny, a mynegwyd y ddadl honno. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd bwyntio'r bys at Brif Weinidog Cymru. Ni roddodd arweiniad ar y prosiect pwysig hwn. Yr wyf yn siwr yr eistedda yn y fan honno heddiw a pheidio â gwneud ei safbwyntiau'n hysbys. Mae hynny'n ffordd annerbyniol o barhau.

Dylem roi'r gorau i'r prosiect heddiw. '*It is doomed*' fel y dywedai Fraser yn *Dad's Army*. Mae methiant y prosiect yn anochel. Fodd bynnag, gadewch inni dybio na fydd Aelodau eraill yn cefnogi'r farn honno. Rhaid inni dreulio'r haf yn ystyried y costau hyn. Os byddant yn union fel yr amheuwn heddiw, credaf y bydd mwyafrif Aelodau'r Cynulliad yn cytuno â'r Ceidwadwyr ein bod yn siarad dros bobl Cymru wrth alw am roi'r gorau i'r prosiect hwn.

Peter Law: Yn anffodus, mae hon yn enghraifft wael i'r rheini a oruchwyliwn y tu allan, heb os nac oni bai. Yr ydym mewn sefyllfa anodd. Dyna a ddaw law yn llaw â bod yn agored ac yn atebol pan aiff pethau o chwith. Gall fod yn anghyfforddus, ond mae'n onest. Mae'n deg dweud nad yw'r ffaith inni gyrraedd y sefyllfa hon yn ein rhoi mewn goleuni proffesiynol. Fodd bynnag, gweithredodd y Gweinidog yn briodol gan egluro'r anawsterau gerbron y Cynulliad heddiw. Mae'n broblem. Fel y gwyr yr Aelodau, ni phleidleisiais o blaid y cynllun hwn bryd hynny, am nad oeddwn o'r farn ei fod yn briodol. Pleidleisiais o blaid yr hyn a adwaenir fel yr opsiwn maes parcio, a fyddai wedi costio tua £10 miliwn yn llai na'r cynllun presennol, ond a fyddai fwy na thebyg tua £25 miliwn yn llai erbyn hyn. Dyna sut yr oedd hi ar y pryd. Ni chredwn fod y cynllun yn briodol. Yr oedd rhai Aelodau o'r farn ei fod yn edrych fel gorsaf betrol ac yr oedd amheuon hefyd ynglyn â'i allu i wrthsefyll y tywydd. Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio'r cynllun a dweud, diolch byth, y dylid cynnwys syrfëwr meintiau annibynnol. Yr wyf yn falch i hynny ddigwydd oherwydd, yn fwy na thebyg, fe chwaraeodd ran yn y broses o greu'r sefyllfa bresennol.

Ar ôl dweud hynny, dyma ein sefyllfa. Siaradodd llais democratiaeth fis Mehefin diwethaf. Yr wyf yn ddemocrat, a chydnabyddaf fy mod mewn lleiafrif bryd hynny. Mabwysiadodd tri o grwpiau gwleidyddol y Cynulliad ymagwedd resymol a phriodol tuag at y sefyllfa hon. Mae sylfeini'r adeilad yn rhannol yn eu lle, ond efallai na fydd y gwaith yn parhau. Ar y llaw arall, yr ydym bellach mewn gwacter, gyda gwacter. Felly, rhaid inni ailasesu'r sefyllfa yn ofalus. Dyna yw'r ymagwedd synnwyr cyffredin. Nid oes modd inni ganslo'r prosiect.

Fe'm dilynwyd gan griw o fanteiswyr gwleidyddol y Blaid Geidwadol fis Mehefin diwethaf a phleidleisio yn erbyn yr adeilad. Bellach maent yn ddigon haerllug i gynnig nifer o welliannau sydd yn gwrthwynebu parhad y prosiect. Mae hynny'n tramgwyddo democratiaeth, am fod mandad aruthrol ar gyfer yr adeilad, er na roddais fy nghefnogaeth iddo. Adlewyrcha hyn ymagwedd rwygol a dinistriol arferol y Ceidwadwyr. Dyma'r blaid na chredai yn y Cynulliad—

Nick Bourne: A wnaiff Peter Law egluro beth sydd yn annemocrataidd ynglyn â chynnig gwelliannau gan obeithio y bydd pobl yn eu cefnogi? Os na chânt gefnogaeth, fe weithredwn yn unol â hynny. Ni welaf unrhyw beth yn annemocrataidd ynglyn â hynny.

Peter Law: Nid yw'r Blaid Geidwadol erioed wedi dymuno gwneud unrhyw beth ar wahân i beri dinistr a chymaint o raniadau â phosibl. Mae gennych gof byr pan ddaw i'r ffaith mai eich Llywodraeth chi a roddodd £220 miliwn i greu'r llyn, a phopeth a ddaw ynghyd ag ef, ym Mae Caerdydd. Fel pobl ddarbodus, ni ddylech anghofio hynny. Mae gan Aelodau eraill bethau eraill i'w dweud. Y rhagrith pur—

David Davies *a gododd—*

Y Llywydd: Trefn. Mae'r ddadl hon yn ymwneud â'r siambr Cynulliad arfaethedig. Nid yw'n ymwneud â hanes Bae Caerdydd. A ildiwch i David Davies?

Peter Law: Tybiais iddo gael ei ddyfarnu allan o drefn. Adlewyrcha hyn ragrith y grwp Ceidwadol oherwydd, ddydd Iau, cefnogant fuddsoddiad pellach o £25 miliwn yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a bydd cyfanswm y gost dros £100 miliwn. Dyna'r rhagrith y soniaf amdano. Yr wyf yn realydd—

Y Llywydd: Trefn. Tynnais sylw at y ffaith, yn unol â'r Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr, nad yw honiadau o ragrith, anonestrwydd neu sylwadau ffug mewn trefn. Gofynnaf i'r Aelodau beidio â defnyddio ymadroddion o'r fath.

Peter Law: Ymddengys fel rhagrith, a chaiff hyn ei gadarnhau ddydd Iau.

Y Llywydd: Trefn. Ni allaf ganiatáu'r aralleiriad hwn o iaith anghwrtais. Nid yw'n briodol.

Peter Law: Tynnaf fy sylwadau ynglyn â rhagrith yn ôl ac ailadroddaf eu bod yn griw o fanteiswyr gwleidyddol.

Nick Bourne: Er gwybodaeth ichi, mae gennym bleidlais rydd ar hyn yn annhebyg i'ch plaid chi o bosibl. Yn bwysicach, byddai gennyf ddiddordeb clywed—ceisiais gyfleu yr un pwynt i Lorraine Barrett—pa swm a ystyriwch sydd yn dderbyniol ar gyfer adeilad newydd i'r Cynulliad; os nad yw'n £50 miliwn, beth am £100 miliwn? Ar ran trethdalwyr Cymru yr wyf yn bryderus am y gwastraff hwn o arian. Nid yw hynny'n rhagrithiol. Gwneuthum y pwynt droeon ac nid wyf wedi derbyn ateb boddhaol eto. Efallai y gallech chi, yn hytrach na'r Gweinidog, ddarparu'r ateb hwnnw. Pa ffigur fyddai'n dderbyniol; os nad yw'n £50 miliwn, beth am £100 miliwn?

Peter Law: Yr wyf yn mabwysiadu'r ymagwedd synnwyr cyffredin drwy oedi ac ystyried ac ailasesu'r sefyllfa, cyn i'r Cynulliad ddychwelyd gydag adroddiad. Bydd pob Aelod rhesymol yn cefnogi'r ymagwedd honno, ac eithrio chi a'ch grwp. Y gwir amdani yw na fuoch erioed o blaid y Cynulliad, cynllun yr adeilad newydd nac unrhyw beth arall. Yr unig ymagwedd synnwyr cyffredin fyddai symud ymlaen fel yr amlinellwyd yn y cynnig. Ni ddylem fabwysiadu meddylfryd siec wag—ac ni chredaf i unrhyw un wneud hynny—gan fod ymagwedd ddarbodus yn hanfodol. Rhaid inni aros i'r Gweindog ymateb i hyn cyn inni benderfynu pa gamau i'w cymryd, a ddylai fod yn rhesymol ac yn briodol.

David Davies: Yr wyf yn falch iawn o ddilyn yr araith syfrdanol honno gan Peter Law. Gwrthwynebasom yr adeilad hwn yn gyntaf oll pan bennwyd pris o £13 miliwn arno. Dywedasom ein bod am weld yr arian yn cael ei wario ar ysbyty plant ac fe'n cyhuddwyd o fod yn fanteiswyr gwleidyddol. Ers hynny, cynyddodd y gost yn barhaus. Bob tro, bu ein safbwynt yn gyson. Gofynasom am roi terfyn ar y prosiect hwn ac i'r arian gael ei wario ar rywbeth a fyddai o fudd i bobl Cymru. Nid bod yn rhagrithiol yw hynny, ond bod yn gwbl gyson.

Peter Law: Pam felly y cefnogwch ddatblygiad Canolfan y Mileniwm a chyfrannu mwy o arian cyhoeddus at hynny?

David Davies: Ymddengys eich bod o dan yr argraff fy mod yn cefnogi hynny, ond nid oes unrhyw un arall yn ymwybodol o hynny. Ni wneuthum ddatganiad arno erioed. Efallai yr hoffech ystyried paham yr oeddech yn fodlon gwasanaethu o dan wr a lwyr gefnogai'r hyn y cyfeiriasoch ato fel llyn yn y ddaear ym Mae Caerdydd. Fodd bynnag, nid yw'r ddadl hon yn ymwneud â'r Blaid Geidwadol—er yr hoffai Peter Law hynny—mae'n ymwneud â'r weinyddiaeth hon a pham y daw ger ein bron yn awr a dweud wrthym mai £47 miliwn fydd y ffigur newydd. Ac nid dim ond hynny, ond mae'n debyg iddynt gael ffrae â'r datblygwr a'u bod yn archwilio pob math o opsiynau eraill, gan gynnwys—yn chwerthinllyd ddigon—yr hyn sydd yn ôl pob tebyg yn rhyw fath o fenter cyllid preifat.

Pan grybwyllasom £50 miliwn, fe'n cyhuddwyd o ormodiaith anghyfrifol. Ymddengys bellach ein bod yn anghywir ac inni danamcangyfrif y gost. Yr wyf yn gymharol newydd i fywyd cyhoeddus. Deuthum yma ddwy flynedd yn ôl ar ôl treulio amser yn rhedeg busnes bach, lle yr oedd yn rhaid imi esbonio pe baem yn colli gymaint â £100. Tybiaf y dylai rywun yn yr adeilad hwn ystyried ei sefyllfa ar ôl colli miliynau o bunnoedd fel hyn.

I do not believe that there is a word in Welsh or English to describe what has occurred but I must say frankly that we must stop the project now and spend the money on something useful in Wales.

Richard Edwards: Mae'n fater o gryn bryder ac amheuaeth, a dweud y lleiaf, i ddigwyddiadau ddatblygu yn y modd hwn. Mae angen ateb nifer o gwestiynau. Yn amlwg, ni ellir caniatáu i'r costau fynd y tu hwnt i bob rheolaeth ac os golyga hynny ffarwelio â Richard Rogers, yna bydded felly. Nodaf holl welliannau'r Torïaid, ac mae'n rhaid imi ddweud nad wyf am wrando arnynt hwy yn traethu am yr hyn sydd ei angen arnom neu beidio gan blaid a wfftiodd ddemocratiaeth Gymreig am 18 mlynedd, ac a ddinoethodd ein holl wasanaethau cyhoeddus yn y broses ac na adeiladodd unrhyw ysbyty plant yr wyf i'n ymwybodol ohono—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Cynigiwyd y gwelliannau hyn gan grwp Ceidwadwyr Cymru. Hoffwn pe gallem gytuno â chais grwp Ceidwadwyr Cymru i beidio â defnyddio'r ymadrodd 'Torïaid'.

Richard Edwards: Derbyniaf eich dyfarniad, Lywydd, a rhoi 'Ceidwadwr' yn lle 'T-O-R-I'.

Wrth gwrs, nid ydynt am fuddsoddi yn ein dyfodol democrataidd—ni chredant ynddo, a honnant eu bod yn siarad dros bobl Cymru. Gadewch inni fod yn glir, nid yw adeilad newydd yn ymwneud ag ACau unigol yn dewis Siambr ddymunol i eistedd a dadlau ynddi. Dywedais o'r blaen ein bod yn wleidyddion dros dro—yma heddiw, ond wedi diflannu yfory. Mae hyn yn ymwneud â buddsoddi yn ein democratiaeth yn y dyfodol a lles ein holl ddinasyddion yn y dyfodol. Dyna pam bod angen yr adeilad newydd arnom, ac nid y maes parcio tanddaearol hwn. Er mwyn y mawredd, rhaid i'r adeilad hwnnw fod yn fwy na theilwng at y diben hwnnw.

Alun Cairns: Gresynaf fod yn rhaid galw'r ddadl hon heddiw. Mae'n amlwg ei fod yn embaras nid yn unig i Lywodraeth Cymru, ond hefyd i'r Cynulliad ac i Gymru o safbwynt sut yr ydym yn rhedeg ein gwasanaethau cyhoeddus. Ni rydd y ddadl hon unrhyw bleser i grwp Ceidwadwyr Cymru nac ailadrodd rhai o'r pethau y rhybuddiasom yn eu cylch bryd hynny—

Cynog Dafis: These events are a cause of embarrassment for us all. I feel sick about the way that people say that this is some kind of an embarrassment for Wales, as if it is a reflection of our inability in Wales to do these things. Has Alun Cairns heard of the Millennium Dome, of Portcullis House and the Pompidou Centre in Paris? Do those countries become ashamed and accuse themselves of not being able to run their own projects and businesses properly because projects fail? Can we grow out of this self-deprecation and this continuous self-abasement? Can we face a problem, try and resolve it and leave it at that?

5:50 p.m.

Alun Cairns: Yr wyf yn siomedig bod Cynog Dafis yn cymryd yr agwedd honno. Mae llanast y prosiect hwn—a llanast ydyw—yn adlewyrchu ar Gymru yn gyfan gwbl. Fel

Aelodau sydd yn cynrychioli pobl Cymru, rhaid i bob un ohonom dderbyn ein cyfrifoldeb, rhai yn fwy na'r lleill.

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydych am feio Cymru gyfan am y sefyllfa sydd wedi datblygu. Penderfyniad gwleidyddol oedd adeiladu siambr newydd a rhaid i wleidyddion dderbyn cyfrifoldeb am y penderfyniad gwleidyddol hwnnw. Nid yw'n ddim i wneud â Chymru gyfan. Mae'n ymwneud â chyfrifoldeb gwleidyddol. Yr hyn yr hoffwn ei glywed y prynhawn yma yw pwy sydd yn derbyn cyfrifoldeb gwleidyddol am y sefyllfa hon ac am y ffaith fod y costau wedi chwyddo? Ni phleidleisiais dros adeilad newydd a fyddai'n costio £47 miliwn. Pleidleisiais dros adeilad a fyddai'n costio £28 miliwn. Pwy sydd yn derbyn y cyfrifoldeb am y ffaith fod £20 miliwn wedi cael ei ychwanegu at y gost? A oes rhywun y prynhawn yma am dderbyn y cyfrifoldeb hwnnw?

Alun Cairns: Derbyniaf un o bwyntiau Rhodri Glyn Thomas, ond mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu ar Gymru. Mae'n amlwg bod Partneriaeth Richard Rogers wedi peri problemau, ond rhaid i'r Cabinet ac Aelodau'r pleidiau a bleidleisiodd dros yr adeilad dderbyn cyfrifoldeb. Rhaid i'r Blaid Geidwadol hefyd dderbyn cyfrifoldeb gan inni fethu ag atal y prosiect cyn hyn.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd—*

Alun Cairns: Nid wyf am ildio. Rhaid i un person dderbyn cyfrifoldeb ar ran y Cynulliad a Phrif Weinidog Cymru yw'r person hwnnw. Dychwelaf i'm haraith.

Mynegasom bryder ar y pryd ynglyn â'r costau. Rhagwelasom y byddai'r costau'n cynyddu. Nid ymfalchïaf yn y ffaith inni gael ein profi'n gywir o ran nifer o'r agweddau hynny am ei fod yn broblem yn awr, fel y dywedodd nifer o'r Aelodau yn gynharach. Credaf mai Peter Law a ddywedodd mai dyma yw'r sefyllfa. Derbyniaf hynny ar sawl gwedd. Anaml y cytunaf â Peter Law, ond cymeraf y pwynt hwnnw o'i araith. Y rhesymau a roddwyd o blaid yr adeilad newydd hwn gan y tair plaid arall ar adeg y ddadl oedd bri, statws a gweledigaeth. Crybwyllodd Lorraine Barrett y rhain heddiw. Mae angen inni gymharu bri, statws a gweledigaeth gyda chost oherwydd diwedd y gân yw'r geiniog yn y pen draw. Pan geisiasom atal datblygiad adeilad newydd y Cynulliad, gofynnais i'r Aelodau sut y gallent edrych ym myw llygad etholwr sydd yn aros am lawdriniaeth ar ei glun tra'n bod ni'n gwario llwyth o arian ar siambr ddadlau newydd ym Mae Caerdydd. Efallai y sylwodd rhai ohonoch fy mod yn hwyr yn cyrraedd y Siambr heddiw. Y rheswm fy mod yn hwyr oedd am i etholwr ddod i'm gweld a gwrthod gadael adeilad y Cynulliad tan imi allu roi sicrwydd iddi y byddai'n cael ei hailgartrefu. Dyna'r broblem a wynebwn. Yr oedd yr heddlu a swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'm cefnogi, ond gwrthodai adael yr adeilad tan iddi gael ymrwymiad y gallai gael ei hailgartrefu. Dyna gyflwr gwasanaethau cymdeithasol Cymru a dyna'r math o fater sydd yn rhaid inni ddelio ag ef.

Derbyniaf yr egwyddor sydd yn sail i'r ddadl o fri, statws a gweledigaeth ar sawl gwedd. Fodd bynnag, y cwestiwn sylfaenol yw ar ba gost? Yr ydym eisoes dros £40 miliwn. Crybwyllwyd ffigur o £100 miliwn. Fodd bynnag, dadleuodd nifer o Aelodau heddiw am ymrwymiad dall i adeilad newydd y Cynulliad, beth bynnag fo'r gost. Ymrwymiad dall ydyw i fri, statws a gweledigaeth—ac i beth? Ar gyfer y 60 o

wleidyddion yn y Siambr hon. Pa neges well i'w throsglwyddo i weddill y Deyrnas Unedig na gwario'r arian ar wasanaeth iechyd gwell, gwasanaeth addysg gwell a thai gwell? Nid oedd rhaid i'r wraig honno ddod i'r Cynulliad. Byddai hynny'n neges glir ar ddatganoli, ac nid y £50 miliwn—neu ba bynnag ffigur y bo—yn cael ei wario ar adeilad newydd y Cynulliad.

Huw Lewis: Un o'r agweddau anoddaf ar fod yn rhan o fywyd gwleidyddol, yr wyf yn siwr y derbyniwch, Alun, yw bod yn rhaid ichi hefyd ystyried beth a ddigwydd os na wnewch chi rywbeth. Felly, beth a awgryma'r Blaid Geidwadol heddiw? A awgrymwch inni fuddsoddi £10 miliwn, sef cost diddymu'r cynllun, mewn twll yn y ddaear? Ai dyna yw symbol gwleidyddiaeth tafarn y Blaid Dorïaidd?

Alun Cairns: Ceisiodd pob Aelod Ceidwadol a siaradodd hyd yn hyn fynd i'r afael â'r mater hwn ag urddas, ac nid er mwyn lladd arno neu fanteisio ar bwyntiau gwleidyddol diwerth. [*Chwerthin.*]

David Melding: Efallai nad yw ychydig o wamalrwydd yn anaddas. Gofynnwyd inni beth y dylid ei wneud â'r twll enfawr sydd bellach wedi'i gloddio ar gyfer sylfeini'r adeilad newydd. Yr ydym i fod i wrthwynebu safleoedd tirlenwi, ond efallai y gallem wneud un eithriad, a chasglu holl bolisïau aflwyddiannus a'r holl bapur a gynhyrchodd y Weithrediaeth hon ynghyd a'u rhoi yn y twll hwnnw.

Y Llywydd: Trefn. Alun Cairns, tynnaf eich sylw at y ffaith ichi fynd ymhell dros y dogn safonol o amser o bum munud.

Alun Cairns: Dof â'm sylwadau i fwcwl, Lywydd

Gofynnodd Huw Lewis beth yw'r pen draw. Mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog yn barod i dorri'u colledion mewn perthynas â Phartneriaeth Richard Rogers—yn gam neu'n gymwys. Yr ydym ni'n barod i dorri'n colledion mewn perthynas ag adeilad y Cynulliad. Yr un yn union yw'r egwyddor. Os dywed y Cynulliad wrth Richard Rogers mai digon yw digon, dywed Plaid Geidwadol Cymru mai digon yw digon o ran yr adeilad newydd.

Richard Edwards: Pwynt o drefn, tynnaf eich sylw at y ffaith ichi ganiatáu i Huw Lewis gyfeirio at glwb y bechgyn yn y fan acw fel 'Y Blaid Dorïaidd'.

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf wedi bod yn ceisio dilyn pob amryfusedd a ddigwydd yn y Siambr hon. Huw, a gyfeiriwch at grwp Ceidwadwyr Cymru felly? Alun Pugh, peidiwch â chrybwyll Torïaid, os gwelwch yn dda.

Alun Pugh: Wrth gwrs, Lywydd.

Nid yw pethau pob amser yn dilyn y cynlluniau mwyaf manwl a thrylwyr. Gofynnwch i Michael Portillo, sydd newydd gael ei bleidleisio allan o'r gystadleuaeth i arwain y Ceidwadwyr.

Y Llywydd: Trefn. Nid ydym yn cynnal dadl ar ddyfodol y Blaid Geidwadol; yr ydym yn ceisio cynnal dadl ar ddyfodol adeilad y Cynulliad.

Alun Pugh: Mae'r costau wedi mynd y tu hwnt i'r gyllideb ac nid oes unrhyw un am weld hynny. Mae nifer ohonom am weld adeilad y gall y genedl ymfalchïo ynddo, yn hytrach na thwll a gostiodd filiynau o bunnoedd, sydd yn araf lenwi â dwr glaw y prynhawn yma. Fodd bynnag, rhaid inni wrando ar bryderon gwirioneddol y bobl hynny a gynrychiolwn. Mae cryn bellter rhwng Bae Colwyn a Bae Caerdydd, a bydd nifer o bobl yn fy etholaeth i yn anhapus â'r cynnydd hwn mewn costau, a byddent yn mynnu, a hynny'n briodol, bod yn rhaid pennu terfyn. Mae Edwina Hart yn hollol gywir i oedi ar yr adeg hon, ac archwilio a yw'n bosibl codi adeilad, am bris derbyniol, y gallwn ymfalchïo ynddo.

Rod Richards: Siaradaf ar ran y Tori annibynnol yn yr adeilad. Clywsom nifer o'r Aelodau yn disgrifio sut y teimlant. Dywedodd Dafydd Wigley ei fod yn gandryll, dywedodd Glyn Davies ei fod yn drist a dywedodd Alun Cairns ei fod yn teimlo embaras. Gan edrych ar Brif Weinidog Cymru, ni sylwaf ar unrhyw un o'r emosiynau hyn ar ei wyneb. Lywydd, fe gofiwch pan gymerodd Prif Weinidog Cymru yr awenau oddi wrth ei ragflaenydd, Alun Michael, beth amser yn ôl, yr oedd yn dymuno treulio sawl wythnos yn archwilio'r holl bapurau a'r dogfennau, a sicrhau bod popeth mewn trefn, fel y gallai wneud penderfyniad drosto'i hun. Yn amlwg, fe glywodd ei ragflaenydd, Alun Michael yn dweud nad oedd yn ymwybodol fod estyn prydles yr adeilad hwn am 10 mlynedd yn rhan o'r fargen. Dyna pam y gallaf ddeall pam bod Rhodri Morgan am dreulio sawl wythnos yn sicrhau bod pob manylyn yn ei le. Bryd hynny, cymerodd feddiant o'r prosiect a daeth yn gyfrifol amdano. Nid cyfrifoldeb ei ragflaenydd, Alun Michael, ydoedd na rhagflaenydd Alun Michael, Ron Davies. Ysgwyddodd Rhodri Morgan y cyfrifoldeb dros y prosiect. Gwyr Prif Weinidog Cymru, fel y gwyr pob Gweinidog yn y Llywodraeth, mai swyddogion sydd yn cynghori a Gweinidogion sydd yn penderfynu. Rhodri Morgan sydd â'r cyfrifoldeb pennaf, ac nid unrhyw un arall.

6:00 p.m.

Fe'm cythruddwyd pan safodd Edwina Hart ger y darllenfwrdd i draethu ei haraith heb hyd yn oed gynnig ymddiheuriad. Nid yn unig na chynigodd ymddiheuriad i'r Aelodau, ond ni chynigiodd ymddiheuriad hyd yn oed i'r bobl a oedd yn gyfrifol am ein rhoi yma ychwaith. Mae arni hi, a'r Llywodraeth, ymddiheuriad—nid dim ond i ni—ond iddynt hwy am y llanast a greasant. O ran Mike German, yr oedd ei araith ynglyn ag oedi mor hunanfodlon fel ei fod yn gyfoglyd. Bu pobl yn hel dail ynglyn â phwy sydd yn gyfrifol a beth ddylai ddigwydd. Rhodri Morgan sydd yn bennaf gyfrifol. Dylai ymddiswyddo ar y mater hwn am mai ei gyfrifoldeb ef ydyw. Dylech ymddiswyddo, Rhodri, ac ymddiswyddo yn awr. Ewch, er mwyn Duw.

Pauline Jarman: Ni ellid amddiffyn cynnwys y cynnig heddiw na Phrif Weinidog Cymru. Pam arall y byddem yn edrych am ateb i'r mater y gallwn ei amddiffyn? Gofynnaf i Rhodri Morgan, neu Edwina Hart—neu bwy bynnag fydd yn ymateb i'r ddadl hon—a fydd y ddogfen dendr a ryddheir, yn ddibynnol ar bleidlais heddiw, yn seiliedig ar y cynllun gwreiddiol neu ar fersiwn ar raddfa lai.

Gofyn y cynnig inni naill ai brydlesu'r adeilad neu ei brynu am gyfandaliad y cytunwyd arno. Cawsom ormod o 'naill ai' a 'neu'. Hyd yn hyn bu'r broses gaffael yn amheus. Ni wn pa gyngor a dderbyniodd y Gweinidogion ynghylch caffael nac o ble y daeth y cyngor hwnnw. Fy mhryder mawr yw y gellid bygwth y Cynulliad yn awr ag ymgyfreithiad. A geisiwyd cyngor cyfreithiol ac os felly, beth oedd y cyngor hwnnw? Yn y pen draw, er bod pob un ohonom yn gyfrifol, ar ysgwyddau Prif Weinidog Cymru y mae'r prif gyfrifoldeb.

Geraint Davies: Yr wyf yn siomedig iawn gyda'r hyn a glywsom heddiw. Mae'r cynnydd yn y gost yn cyflymu ac yn peri pryder. Fodd bynnag, rhaid inni gofio pam bod y Cynulliad yn bodoli. Brwydrasom dros ddatganoli am ein bod am weld llywodraeth Cymru a fyddai'n atebol i bobl Cymru. Ein tasg a'n cyfrifoldeb pwysicaf fydd dwyn y bobl hynny a wnaeth y penderfyniadau hyn i gyfrif. Os methwn â gwneud hynny, byddwn yn siomi pobl Cymru. Mae'n hanfodol, felly, y dygir y rheini a wnaeth y penderfyniadau i gyfrif.

Ieuan Wyn Jones: Gwrandawais yn astud ar gyfraniadau heddiw. Gwnaethpwyd un o'r cyfraniadau mwyaf syfrdanol gan Alun Cairns. Siaradodd yn briodol am fuddsoddi mewn iechyd, addysg a meysydd allweddol eraill. Fodd bynnag, dylai gofio mai John Redwood a anfonodd £100 miliwn yn ôl i'r Trysorlys. Byddai'r swm hwnnw'n ddigon i adeiladu dwy siambr ar gyfer y Cynulliad. [Aelodau Ceidwadol o'r Cynulliad: 'Hen hanes yw eich sylwadau'.]

Y Llywydd: Trefn. Credaf fod Ieuan Wyn Jones ar fin troi at y pwnc sydd yn destun trafodaeth.

Ieuan Wyn Jones: Dywedaf wrth Alun, a'i gyfeillion ym Mhlaid Geidwadol Cymru, nad embaras yw hwn i bobl Cymru; yn hytrach mae'n embaras enfawr i Lywodraeth Cymru. Rhaid inni fel cenedl feddu ar yr hunanhyder i ddwyn y Llywodraeth hon i gyfrif. Ni ddylem gyhuddo pobl Cymru am fethiant y Llywodraeth hon. Rhaid gwneud y pwynt hwnnw heddiw. Mae hwn yn embaras enfawr. Nid yw hon yn sefyllfa y dymunwn fod ynddi. Rhaid i'r Llywodraeth gymryd cyfrifoldeb drosti.

Alun Cairns: Ceisiais bwysleisio, Ieuan, yr adlewyrcha hyn yn anffafriol ar Gymru, a'i fod yn embaras i Gymru. Pan fyddwch wedi aeddfedu, yr wyf yn siwr y gwerthfawrogwch hynny.

Ieuan Wyn Jones: Fel erioed, yr wyf yn ddiolchgar am gyngor Alun. Mae'n hanfodol fod pawb yn y Siambr hon yn deall fod datganoli wedi dod â llawer o hunanhyder i bobl Cymru. Ni ddylem fychanu hynny. Fodd bynnag, fel yr eglurais yn ystod y cyfraniad byr hwn, mae gennym gyfrifoldeb i ddwyn y Llywodraeth hon i gyfrif am yr hyn a ddigwyddodd. Mae'r sefyllfa hon yn embaras. Byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried sut y penderfynwyd ar y contract hyd yn hyn. Derbyniaf bwynt Alison Halford—gwrandawais arno yn ofalus iawn. Bellach mae rheswm gennym dros ofyn i'r Pwyllgor Archwilio ailystyried y mater hwn.

Rhodri Glyn Thomas: A gytunwch, Ieuan, fod hyn yn goleuo'r mater, ond ei fod yn eironig bod Alun Cairns yn dymuno gwyro'r cyfrifoldeb dros y penderfyniad hwn oddi wrth y Llywodraeth a Phrif Weinidog Cymru i bobl Cymru, a'u beio am benderfyniad a wnaethpwyd gan y Llywodraeth hon? Nid yw Ceidwadwyr Cymru am ddwyn y Llywodraeth i gyfrif. Maent am feio pobl Cymru a datganoli. Rhaid i'r Llywodraeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb.

Y Llywydd: Trefn. Pe baech am wneud araith, dylech fod wedi nodi hynny.

Ieuan Wyn Jones: Yr oedd yn ymyriad campus.

David Davies: Syniad Arweinydd yr Wrthblaid o wrthblaid resymol yw cefnogi'r Llywodraeth yn llawn wrth wario miliynau o bunnoedd ar adeilad newydd. Yna, rhed ymaith a chuddio a dweud nad oes ganddo unrhyw beth i'w wneud ag ef ac nad ef sydd ar fai, yn sydyn, pan fo'r gost yn cyrraedd £50 miliwn, fel y rhagwelasom o'r cychwyn cyntaf.

Ieuan Wyn Jones: Bod yn wrthblaid resymol yw dweud hyn: gwariasom £8 miliwn eisoes ar yr adeilad hwn. Byddai'r arian hwnnw'n cael ei wastraffu pe bai Ceidwadwyr Cymru'n cael eu ffordd heddiw. Os cefnogwch y cynnig hwn a'n gwelliant, caiff y prosiect hwn ei ohirio i ganiatáu i Aelodau'r Cynulliad ystyried yr holl opsiynau. Bod yn wrthblaid gyfrifol yw hynny ac nid bod yr wrthblaid anghyfrifol, sef yr hyn y mae Ceidwadwyr Cymru'n ei harddangos. Rhaid i'r Llywodraeth hon wrando'n astud ar yr hyn a ddywedir yn y Siambr hon heddiw. Nid yw'n anochel y bydd yr adeilad Cynulliad hwn yn mynd rhagddo. Rhaid galw pobl i gyfrif am y sefyllfa yr ydym ynddi. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd pobl Cymru yn deall y gweithredwn yn gyfrifol pan wneir y penderfyniad terfynol.

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Gwrandawais yn astud ar yr hyn a ddywedwyd yn y Siambr heddiw. Ni synnaf i'r Aelodau fynegi pryderon dwys am y sefyllfa ddifrifol yr ydym ynddi. Nid ar chwarae bach y deuthum i'r penderfyniad hwn. Cynigiwn weithredu'n gynnar i sicrhau nad aiff y sefyllfa y tu hwnt i bob rheolaeth. Ceisiasom gadw gafael gadarn ar y gost. O wrando ar Geidwadwyr Cymru, gallech dyngu imi wastraffu £50 miliwn. Ni wastraffasom yr arian hwnnw. Cymerasom gamau cynnar, adferol i geisio sicrhau a chynghori'r Cynulliad am y problemau a gyfyd. Defnyddiwyd y gair 'embaras' heddiw. Ni theimlwn embaras ynglyn â dod i'r Siambr hon heddiw. Yr wyf yn drist ein bod yn y sefyllfa hon. Ni ddylai pobl Cymru deimlo embaras. Mae ganddynt Gynulliad agored ac atebol, sydd yn ceisio trafod y materion sydd yn ymwneud â llywodraethu Cymru ac adeilad newydd y Cynulliad yn rhesymegol. Dyna'r pwnc pwysig.

6:10 p.m.

Alun Cairs *a gododd—*

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'r Gweinidog yn ildio.

Edwina Hart: Pan siaradwn am y dyfodol, gadewch inni fod yn glir mai datganoli yw'r dyfodol yn fy marn i. Yr ydym yn trafod y mater ehangach o ba adeilad a godir at y diben democrataidd yr ydym yn ei ddymuno o ran Siambr newydd. Ein dyletswydd yw meddu ar weledigaeth ehangach, y cyfeiriodd Ron Davies ati. Yr oedd ei gyfraniad heddiw yn arbennig o feddylgar a chadwaf ei bwyntiau mewn cof. Fodd bynnag, o ran gwelliannau William Graham, nid yw'n wir nad wyf yn barod i ddatgelu gwybodaeth, ond rhaid imi ystyried sensitifrwydd masnachol a materion eraill ar hyn o bryd.

Yr wyf yn siwr y bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio'r ffigurau hyn yn fanwl a bydd y llyfrau i gyd ar gael iddi. Nododd Ieuan y bydd yn ysgrifennu at gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Mae hynny'n briodol. Fodd bynnag, rhaid imi gofio fy mod am weld y prosiect hwn yn mynd rhagddo. Rhaid imi sicrhau na ddatgelaf unrhyw beth na fyddai'n caniatáu iddo fynd rhagddo er budd a gwerth am arian i bobl Cymru.

Mynegodd y Cynulliad yn glir ei ddyhead i adeiladu'r adeilad, a gynlluniodd Richard Rogers. Cynigia'r cynnig hwn y cyfle inni oedi ac ystyried a allwn weithredu ar hyn. Dyna'r pwnc allweddol. Deallaf bryderon pobl ynglyn â chostau. Fodd bynnag, o leiaf cawsom y fantais—a chyfeiriodd Mike German at hyn—o ohirio'r prosiect. Ni ohiriasant y prosiect yn San Steffan nac yn yr Alban. Cawsom y fantais o ystyried yr opsiynau sydd ar gael.

Cyfeiriodd Nick Bourne at y twll du. Cyfeiria at y gorffennol, ond rhaid imi gadw'r dyfodol mewn cof. Gallwn drafod yr hyn a ddigwyddodd o ran y ffigurau hyn, a chanfod atebion, ond rhaid imi edrych i'r dyfodol ac ystyried yr hyn a ddymunwn.

Dywedodd Cynog fod angen inni fod yn fwy gofalus wrth ddelio ag adeiladu adeiladau cyhoeddus. Caiff unrhyw wersi sydd i'w dysgu eu dysgu o hyn. Fel y Gweinidog sydd yn gyfrifol am y prosiect hwn, yr wyf yn barod i dderbyn fy nghyfrifoldeb, a dyna pam y deuthum yma heddiw. Gallwn fod wedi parhau, dod â'r contract i ben a symud ymlaen at y toriad. Dewisais beidio â gwneud hynny. Dewisais edrych ar yr holl ffeithiau a ffigurau sydd ar gael a dod ger eich bron yn y Siambr hon a bod yn onest gyda chi. Mae'n fyd creulon y tu allan, ond yr unig bobl a fydd yn peri embaras inni fydd y rheini sydd yn rhygnu ymlaen ynglyn ag a ddylem gael Siambr. Nid oes unrhyw embaras yn gysylltiedig â dweud bod rhywbeth yn bod, ac atal pethau, edrych, gwrando a dysgu. Byddai'n briodol pe gallem ddod o hyd i ateb.

Cododd Alison Halford nifer o faterion eraill, y mae'n rhaid inni eu hystyried—

Cynog Dafis: Deallaf y bydd y Gweinidog yn gwrthod gwelliannau'r Ceidwadwyr. Hoffwn glywed ei sylwadau ynglyn â'r rheini. Cydymdeimlwn â'r rhesymau dros eu gwrthod. Fodd bynnag, hoffwn gael sicrwydd, serch hynny, y bydd yr holl wybodaeth ariannol ac arall, sydd yn ymwneud â'r prosiect, ar gael i'r Cynulliad, er mwyn iddo allu penderfynu'n gyfrifol a synhwyrol ar sail yr wybodaeth honno, pan fo angen penderfyniad yn yr hydref. A gaf i'r sicrwydd hwnnw?

Edwina Hart: Rhoddaf y sicrwydd angenrheidiol, Cynog, ar yr amod nad yw'n peryglu'r dyfodol o ran sensitifrwydd masnachol. Yr wyf yn fodlon sicrhau bod yr holl wybodaeth, a all gael ei rhyddhau i'r cyhoedd, ar gael cyn gynted â phosibl. Fe'ch

sicrhaf o hynny, gan fod tryloywder yn allweddol o ran y materion hyn. Rhaid inni ystyried y dyfodol o ran cyflwyno'r prosiect hwn.

Gwrandawais â diddordeb ar eich sylwadau, Lorraine, ynglyn â'r syniad o gyfryngu. Ystyriaf hynny. Fodd bynnag, trof at y gwelliannau. Gwrthodaf eich gwelliant 1, William, gan i'r Cynulliad benderfynu yn flaenorol parhau â'r prosiect, felly, mae'r gwelliant yn gynamserol ar hyn o bryd. Yr wyf yn fodlon derbyn gwelliant 2 Mike German a gwelliant 3 Jocelyn Davies, gan eu bod yn darparu ffordd ymlaen a rhoi'r atebolrwydd angenrheidiol inni yn yr hydref, pan ddychwelwn i drafod y materion hyn yn fanwl. Gwrthodaf welliannau eraill William Graham. Rhaid imi eu gwrthod, nid am nad wyf yn barod i ddarparu gwybodaeth, ond am nad yw'n briodol, ar hyn o bryd, imi roi gwybodaeth yn y maes hwn. Cyn gynted ag y gallaf, rhoddaf yr holl ffeithiau angenrheidiol. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Archwilio yn delio â'r holl ffeithiau hyn ac yn ysgrifennu adroddiadau arnynt.

Mae'n anodd, pan deimlaf mor gryf dros ddemocratiaeth a chael Siambr newydd i'r Cynulliad i sefyll ar fy nhraed a dweud hyn heddiw. Nid yw'n hawdd, oherwydd credais fy mod wedi gwneud popeth yn iawn. Cymerais gyngor. Ystyriais y cyngor hwnnw a phenderfynais barhau. Ar rai agweddau, teimlaf i'r byw na ddatblygodd pethau fel y dymunais. Fodd bynnag, yr wyf yn wleidydd a dewisais ymuno â'r byd hwn. Yr wyf yn Weinidog, a rhaid imi gymryd cyfrifoldeb. Yr oedd yn bwysig trafod hyn heddiw ac nid yw'n benderfyniad hawdd i'r Cynulliad ei wneud.

Jonathan Morgan: Byddaf yn gryno. Deallaf y sefyllfa anodd y'ch rhoddwyd chi ynddi y prynhawn yma fel Gweinidog, ond ymbiliaf arnoch i ymddiheuro i bobl Cymru ar ran y weinyddiaeth am y camgymeriadau a wnaethpwyd. Yr wyf yn siwr y'u gwnaethpwyd gan y weinyddiaeth ac nid dim ond gan bartneriaeth yr Arglwydd Rogers. Os na fydd ymddiheuriad, gall pobl Cymru weld ymagwedd drahaus y Llywodraeth hon—[*Torri ar draws.*]

Peter Law: A yw rhagrith bellach mewn trefn, Lywydd?

Y Llywydd: Trefn. Nid yw rhagrith mewn trefn. Dyfarnais eisoes ar hynny.

Edwina Hart: Yr wyf bob amser wedi ceisio peidio â bod yn drahaus wrth ddelio â phobl yn gyffredinol, yn y Cynulliad ac yn fy etholaeth. Nid agwedd drahaus yw hyn; nodi'r ffeithiau a wnaf. Rhaid imi fod yn feddyg y Cynulliad ar wybodaeth sydd yn fasnachol sensitif o ran pa gamau a gymerwn yn y dyfodol, a pha benderfyniadau yr ydym yn debygol o'u gwneud. Byddai'n anghywir imi ymddiheuro am rywbeth felly, pe na chredwn yn y pen draw, fod gennyf unrhyw beth i ymddiheuro amdano. Derbyniaf fy nghyfrifoldeb am y mater hwn a dyfarniad y Cynulliad, pan fydd yr holl ffeithiau ar gael. Fodd bynnag, yr oedd yn bwysig cael dadl wirioneddol ar ddyfodol yr adeilad.

Diolchaf i'r mwyafrif o'r Aelodau am y modd y cynhaliwyd y ddadl hon. Mae'n anodd i unrhyw un ohonom gredu bod datganoli yma, ond mae'n drist nad yw un blaid yn amlwg yn credu hynny ac yn parhau i wneud Siambr newydd y Cynulliad yn fwch dihangol yn hytrach na thrafod ei dyfodol, sef y mater o bwys.

Gwelliant 1: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 42

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Bourne, Nick Cairns, Alun Davies, David Davies, Glyn Graham, William Melding, David Morgan, Jonathan Richards, Rod Rogers, Peter	Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Burnham, Eleanor Butler, Rosemary Chapman, Christine Davidson, Jane Davies, Andrew Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Edwards, Richard German, Michael Gibbons, Brian Gregory, Janice Griffiths, John Gwyther, Christine Halford, Alison Hart, Edwina Hutt, Jane Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Lloyd, David Law, Peter Lewis, Huw Middlehurst, Tom Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Pugh, Alun Randerson, Jenny Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Gwenda Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty

	Williams, Phil

Gwrthodwyd y gwelliant.

Gwelliant 2: O blaid 42, Ymatal 9, Yn erbyn 0

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Law, Peter
Lewis, Huw
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John

Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod
Rogers, Peter

Derbyniwyd y gwelliant.

Y Llywydd: Tynnwyd gwelliant 3 yn ôl.

Gwelliant 4: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 40

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Bourne, Nick Cairns, Alun Davies, David Davies, Glyn Graham, William Melding, David Morgan, Jonathan Richards, Rod Rogers, Peter	Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Burnham, Eleanor Butler, Rosemary Chapman, Christine Davidson, Jane Davies, Andrew Davies, Geraint Davies, Jocelyn Davies, Ron Edwards, Richard German, Michael Gibbons, Brian Gregory, Janice Griffiths, John Gwyther, Christine Halford, Alison Hart, Edwina Hutt, Jane

	Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Lloyd, David Law, Peter Lewis, Huw Middlehurst, Tom Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Pugh, Alun Randerson, Jenny Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Gwenda Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty

Gwrthodwyd y gwelliant.

Gwelliant 5: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 41

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Bourne, Nick Cairns, Alun Davies, David Davies, Glyn Graham, William Melding, David Morgan, Jonathan Richards, Rod Rogers, Peter	Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Burnham, Eleanor Butler, Rosemary Chapman, Christine Davidson, Jane Davies, Andrew Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Edwards, Richard German, Michael Gibbons, Brian Gregory, Janice Griffiths, John

	Gwyther, Christine Halford, Alison Hart, Edwina Hutt, Jane Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Lloyd, David Law, Peter Lewis, Huw Middlehurst, Tom Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Pugh, Alun Randerson, Jenny Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Gwenda Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty

Gwrthodwyd y gwelliant.

Gwelliant 6: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 41

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Bourne, Nick Cairns, Alun Davies, David Davies, Glyn Graham, William Melding, David Morgan, Jonathan Richards, Rod Rogers, Peter	Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Burnham, Eleanor Butler, Rosemary Chapman, Christine Davidson, Jane Davies, Andrew Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Edwards, Richard

	German, Michael Gibbons, Brian Gregory, Janice Griffiths, John Gwyther, Christine Halford, Alison Hart, Edwina Hutt, Jane Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Lloyd, David Law, Peter Lewis, Huw Middlehurst, Tom Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Pugh, Alun Randerson, Jenny Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Gwenda Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty

Gwelliant 7: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 42

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Bourne, Nick Cairns, Alun Davies, David Davies, Glyn Graham, William Melding, David Morgan, Jonathan Richards, Rod Rogers, Peter	Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Burnham, Eleanor Butler, Rosemary Chapman, Christine Davidson, Jane Davies, Andrew Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron

	Edwards, Richard German, Michael Gibbons, Brian Gregory, Janice Griffiths, John Gwyther, Christine Halford, Alison Hart, Edwina Hutt, Jane Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Lloyd, David Law, Peter Lewis, Huw Middlehurst, Tom Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Pugh, Alun Randerson, Jenny Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Gwenda Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty Williams, Phil

Gwrthodwyd y gwelliant.

Gwelliant 8: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 42

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blai	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Bourne, Nick Cairns, Alun Davies, David Davies, Glyn Graham, William Melding, David Morgan, Jonathan Richards, Rod	Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Burnham, Eleanor Butler, Rosemary Chapman, Christine Davidson, Jane Davies, Andrew

Rogers, Peter	Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Edwards, Richard German, Michael Gibbons, Brian Gregory, Janice Griffiths, John Gwyther, Christine Halford, Alison Hart, Edwina Hutt, Jane Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Lloyd, David Law, Peter Lewis, Huw Middlehurst, Tom Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Pugh, Alun Randerson, Jenny Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Gwenda Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty Williams, Phil

Gwrthodwyd y gwelliant.

Cynnig wedi'i ddiwygio:

y Cynulliad Cenedlaethol, ymhellach at ei benderfyniad ar 21 Mehefin 2000, yn penderfynu:
ceisio tendrau cystadleuol i gwblhau adeilad y Cynulliad, wedi ei seilio ar y dyluniad a baratowyd gan Bartneriaeth Richard Rogers, ac un ai ei brydlesu i'r Cynulliad neu ei werthu am un swm y cytunwyd arno; a gohirio gwaith ar yr adeilad nes i'r fath dendr gael ei dderbyn;

ar ôl i'r tendrau ddod i law ac ar ôl eu hystyried, cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i argymell p'un a ddylai'r prosiect barhau, ac os felly, ar ba sail.

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 43 , Ymatal 0, Yn erbyn 8

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:	Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
Barrett, Lorraine Bates, Mick Black, Peter Burnham, Eleanor Butler, Rosemary Chapman, Christine Davidson, Jane Davies, Andrew Davies, Geraint Davies, Glyn Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Edwards, Richard German, Michael Gibbons, Brian Gregory, Janice Griffiths, John Gwyther, Christine Halford, Alison Hart, Edwina Hutt, Jane Jarman, Pauline Jones, Ann Jones, Elin Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Lloyd, David Law, Peter Lewis, Huw Middlehurst, Tom Morgan, Rhodri Neagle, Lynne Pugh, Alun Randerson, Jenny Ryder, Janet Sinclair, Karen Thomas, Gwenda	Bourne, Nick Cairns, Alun Davies, David Graham, William Melding, David Morgan, Jonathan Richards, Rod Rogers, Peter

Thomas, Owen John Thomas, Rhodri Glyn Wigley, Dafydd Williams, Kirsty Williams, Phil	

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Y Llywydd: Dyna ddiwedd ein gweithgareddau cynhyrfus am heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.19 p.m.